**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Cymharu'r systemau cynllunio ym mhedair gwlad y DU

Ionawr 2016

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: cynulliad.cymru/ymchwil

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddYmchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/2063
Rhif dogfen:16/001

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Cymharu'r systemau cynllunio ym mhedair gwlad y DU

Ionawr 2016

Graham Winter

Mae'r papur hwn yn disgrifio ac yn cymharu agweddau ar y systemau cynllunio defnydd tir sy'n gweithredu ar hyn o bryd ym mhedair gwlad y DU. Yn benodol, o ystyried y newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU (2010-2015) a'r gweinyddiaethau datganoledig, mae'n ystyried i ba raddau y mae'r pedair system gynllunio bellach yn wahanol i'w gilydd. Mae hefyd yn disgrifio'r cynigion eraill ar gyfer newidiadau sydd yn yr arfaeth. Mae hwn yn ddiweddariad o fersiwn flaenorol o'r papur hwn a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013.

Diolch yn arbennig i:
Paratowyd y papur hwn fel un o fentrau'r Rhwydwaith Ymchwil a Gwybodaeth Rhyng-Seneddol (IPRIN) gyda chyfraniadau gan staff ymchwil sy'n gweithio i bob un o'r pedair deddfwrfa yn y DU ac mae'n cael ei gyhoeddi ar wahân gan bob sefydliad.

Y cyfranwyr eraill:
Louise Smith, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin
Suzie Cave, Gwasasnaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon
Alan Rehfisch, Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

House of Commons Library

SPICe The Information Centre

Northern Ireland Assembly

# Contents


01. Cymharu'r systemau cynllunio ym mhedair gwlad y DU ..... 1
02. Y Fframwaith Deddfwriaethol ..... 2
03. Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ..... 4
04. Strategaethau/cynllunio rhanbarthol ..... 6
05. Cynlluniau Datblygu Lleol ..... 8
06. Cynlluniau cymdogaeth/cymunedol ..... 11
07. Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ..... 13
08. Gorchmynion datblygu cymdogaeth/Gorchmynion hawl i adeiladu cymunedol ..... 16
09. Hawliau datblygu a ganiateir ..... 17
10. Dosbarthiadau defnydd ..... 19
11. Amodau cynllunio ..... 21
12. Caniatâd hysbysebu ..... 23
13. Asesiadau o'r Effeithiau Amgylcheddol ..... 25
14. Apeliadau/yr Arolygiaeth Gynllunio ..... 27
15. Gorfodi ..... 29
16. Ardoll Seilwaith Cymunedol/Cyfraniadau gan ddatblygwyr ..... 32
17. Gwasanaethau cynghori ar gynllunio ..... 35
18. Newidiadau yn y dyfodol ..... 36
19. Rhagor o wybodaeth ..... 39

# 01. Cymharu'r systemau cynllunio ym mhedair gwlad y DU

## 01.1 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn disgrifio ac yn cymharu agweddau ar y systemau cynllunio defnydd tir sy'n gweithredu ar hyn o bryd ym mhedair gwlad y DU. Yn benodol, o ystyried y newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU (2010-2015) a'r gweinyddiaethau datganoledig, mae'n cymharu i ba raddau y mae'r pedair system gynllunio bellach yn wahanol i'w gilydd. Mae hefyd yn disgrifio'r newidiadau ychwanegol sydd yn yr arfaeth ym mhob gwlad.

Mae gan bob un o'r pedair gwlad system gynllunio sy'n 'cael ei harwain gan gynlluniau'. Mae 'cael ei harwain gan gynlluniau' yn golygu bod polisi cynllunio cenedlaethol a lleol wedi'i nodi mewn cynlluniau datblygu ffurfiol sy'n disgrifio pa ddatblygiadau a ddylai ac na ddylai gael caniatâd cynllunio, a sut y dylid diogelu tir. Mae hefyd yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu a diogelu'r amgylchedd er budd y cyhoedd. Gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol ar sail y polisïau yn y cynlluniau hyn, oni bai bod ystyriaethau eraill. Mae gan bob gwlad hefyd ddiffiniadau o'r mathau o ddatblygiad a ganiateir heb yr angen am gais cynllunio ac mae'n diffinio "dosbarthiadau defnydd" lle mae newid defnydd o fewn dosbarth yn cael ei ganiatáu fel arfer. Mae system apelio i adolygu penderfyniadau ar geisiadau hefyd yn gweithredu ym mhob gwlad. Mae gan bob gwlad system ar waith hefyd i gymryd camau gorfodi pan fo rheolaeth gynllunio yn cael ei thorri.

Er bod strwythurau sylfaenol y pedair system yn debyg, ceir gwahaniaethau yn y manylion ac o ran sut y mae pob system yn gweithio. Mae newidiadau diweddar a gyflwynwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU (2010-2015) wedi creu mwy o wahaniaeth rhwng y system yn Lloegr a'r tair gwlad arall yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae gan Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon bellach eu deddfwriaeth sylfaenol eu hunain ym maes cynllunio. Newidiwyd y system yng Ngogledd Iwerddon yn sylweddol yn ddiweddar trwy drosglwyddo swyddogaethau cynllunio i gynghorau lleol. Derbyniodd *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015, er nad yw pob un o'i darpariaethau mewn grym eto.

# 02.Y Fframwaith Deddfwriaethol

## 02.1 Lloegr

Dyma'r prif Ddeddfau Cynllunio sydd mewn grym yn Lloegr ar hyn o bryd:

- ***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*** sy'n cydgrynhoi deddfwriaeth cynllunio gwlad a thref flaenorol ac sy'n nodi sut y caiff datblygiadau eu rheoleiddio.
- ***Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*** a wnaeth newidiadau i'r trefniadau ar gyfer rheoli datblygiadau, prynu gorfodol a chymhwyso'r Deddfau Cynllunio i dir y Goron.
- ***Deddf Cynllunio 2008*** sy'n nodi fframwaith y broses gynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ac a ddarparodd ar gyfer yr ardoll seilwaith cymunedol.
- ***Deddf Lleoliaeth 2011*** sy'n rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer pwerau cynllunio cymdogaeth a'r ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau cyfagos.

## 02.2 Gogledd Iwerddon

Mae'r trefniadau sefydliadol yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU. Caiff Gweinidogion mewn adrannau awdurdod gweithredol llawn yn eu priod feysydd cyfrifoldeb; fodd bynnag, rhaid iddynt gael cytundeb cyffredinol gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau cydlyniant.

Ar 1 Ebrill 2015 daeth system gynllunio dwy haen newydd i rym o dan ***Ddeddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011*** (Deddf Cynllunio 2011), gan gyflwyno trefniadau lle mae cynghorau ac Adran yr Amgylchedd (yr Adran) yn rhannu cyfrifoldebau cynllunio[1]. Mae hyn yn disodli'r hen system o dan ***Orchymyn Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 1991*** lle'r oedd Adran yr Amgylchedd yn gyfrifol am gynllunio yng Ngogledd Iwerddon. O dan Ddeddf Cynllunio 2011, mae pob cyngor newydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer ardal y cyngor hwnnw. Mae'r cynghorau bellach yn gyfrifol am gynllunio datblygiadau lleol, rheoli gwaith datblygu a gorfodi'r rheolau cynllunio.

Fodd bynnag, mae'r Adran yn dal yn gyfrifol am geisiadau o arwyddocâd rhanbarthol a cheisiadau a 'elwir i mewn'; polisi cynllunio rhanbarthol; deddfwriaeth gynllunio; goruchwyliaeth ac arweiniad i gynghorau a rheoli perfformiad.

Cefnogir Deddf 2011 gan raglen sylweddol o is-ddeddfwriaeth. Gellir cael rhagor o fanylion am hyn **yma**.

## 02.3 Yr Alban

Ceir dau ddarn o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gweithrediad system gynllunio'r Alban:

***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997*** yw'r sail ar gyfer y system gynllunio ac mae'n nodi rolau Gweinidogion yr Alban ac awdurdodau lleol o ran cynlluniau datblygu, ac o ran rheoli datblygiadau a gorfodi. Diwygiwyd y Ddeddf hon yn sylweddol gan ***Ddeddf Cynllunio etc. (yr Alban) 2006***.

---

[1]Fodd bynnag, disgwylir newidiadau adrannol yn 2016 pryd y gellid symud y cyfrifoldeb am gynllunio rhanbarthol i Adran Seilwaith newydd. Tan hynny, bydd y cyfrifoldebau'n aros gydag Adran yr Amgylchedd.

Mae ***Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (yr Alban) 1997*** yn ymwneud yn bennaf â dynodi a diogelu adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Diwygiwyd y Ddeddf hon gan ***Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Diwygio) yr Alban 2011*** a ***Deddf Amgylchedd Hanesyddol (yr Alban) 2014***.

## 02.4 Cymru

Mae'r rhan fwyaf o'r system cynllunio gwlad a thref yng Nghymru wedi'i datganoli. Fodd bynnag, mae fframwaith y ddeddfwriaeth sylfaenol yr un peth yn fras â'r fframwaith yn Lloegr, er bod rhai gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig o ran sut y maent yn gymwys i Gymru. Bydd *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 yn cyflwyno rhagor o wahaniaethau ar ôl dod i rym yn llawn. Ar hyn o bryd mae'r system yn gweithredu ar ddwy lefel:

Yn genedlaethol: drwy Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio; ac

Yn lleol: drwy Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Gallai Deddf 2015 gyflwyno trydedd haen 'ranbarthol'. Gallai rhannau o Gymru gael eu nodi'n Ardaloedd Cynllunio Strategol, a sefydlir Paneli Cynllunio Strategol ar gyfer yr ardaloedd hyn (gweler Adran 4 isod).

Darperir y prif fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru bellach gan y Deddfau a ganlyn:

– ***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990****;*

– ***Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004****;*

– ***Deddf Cynllunio 2008****;* a

– ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015***

Cafodd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweithredol a'r pwerau o ran is-ddeddfwriaeth a geir yn y ddwy Ddeddf gyntaf eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan ***Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.*** Yn dilyn hynny, trosglwyddwyd y pwerau hyn i Weinidogion Cymru yn sgil ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006***.

– Ers 2011, bu gan y Cynulliad y cymhwysedd i basio Deddfau ym maes cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref. ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** yw'r Ddeddf gyntaf o'r fath.

# 03.Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

## 03.1 Lloegr

Mae'r ***Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol*** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 yn nodi polisïau cynllunio Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr a sut y mae'n disgwyl i'r rhain gael eu rhoi ar waith. Rhaid ystyried y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol wrth baratoi cynlluniau lleol ac mae'n ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio. Dylid darllen tair dogfen arall ochr yn ochr â'r Fframwaith:

***Polisi cynllunio ar gyfer safleoedd teithwyr***, diweddarwyd ym mis Awst 2015;

***Canllawiau Technegol i'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol***, Mawrth 2012, sy'n rhoi canllawiau ychwanegol i awdurdodau lleol ar ddatblygu mewn ardaloedd lle y ceir perygl o lifogydd ac mewn perthynas ag echdynnu mwynau;

***Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Gwastraff***, Hydref 2014.

Ym mis Mawrth 2014, lansiodd y Llywodraeth ei ***Chanllawiau Ymarfer Cynllunio*** ar-lein sydd wedi'u bwriadu i gyd-fynd â'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Dyma farn yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â sut y dylid defnyddio polisïau'r Fframwaith yn ymarferol, a darparu rhagor o wybodaeth. Caiff y Canllawiau Ymarfer Cynllunio eu rheoli'n weithredol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a'u diweddaru'n aml.

Nid oes unrhyw bolisïau penodol ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol na'r Canllawiau Ymarfer Cynllunio. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu'r rhain yn unol â *Deddf Cynllunio 2008* a ***datganiadau polisi cenedlaethol*** perthnasol ar gyfer seilwaith mawr, sy'n cwmpasu meysydd ynni, trafnidiaeth, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff.

## 03.2 Gogledd Iwerddon

O dan y **Rhaglen Lywodraethu**, mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn mapio amcanion i Ogledd Iwerddon ar gynllunio a datblygu gan gyfeirio at ddatblygu cynaliadwy. Caiff y rhain eu gweithredu gan yr adrannau sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

Yn gyffredinol, yr Adran sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a chanllawiau cynllunio yng Ngogledd Iwerddon ac maent yn gweithredu ar sail ranbarthol sengl (hy: Gogledd Iwerddon). Fodd bynnag, yr Adran Datblygu Rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynllunio strategol a pholisi datblygu rhanbarthol, ar ffurf **Strategaeth Datblygu Rhanbarthol 2035**.

Mae'r Strategaeth Datblygu Rhanbarthol, a gaiff ei llunio gan yr Adran Datblygu Rhanbarthol, yn rhoi golwg strategol a hirdymor ar ddatblygiad Gogledd Iwerddon yn y dyfodol hyd 2035. Ei diben yw cyflawni'r agweddau gofodol ar y Rhaglen Lywodraethu ac felly mae'n fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol ledled Gogledd Iwerddon. Mae Deddf Cynllunio 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adran sicrhau bod unrhyw bolisi y mae'n ei baratoi yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Strategaeth Datblygu Rhanbarthol.

Mae'r system gynllunio newydd yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth y gyfres bresennol o Ddatganiadau Polisi Cynllunio at un **Datganiad Polisi Cynllunio Strategol.** Mae'r Datganiad Polisi Cynllunio Strategol yn dod â'r gyfres o Ddatganiadau Polisi Cynllunio at ei gilydd mewn un ddogfen ac

yn darparu'r egwyddorion cynllunio cyffredinol y dylai cynghorau eu defnyddio wrth ddatblygu eu polisïau cynllunio eu hunain o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd. Bydd hefyd yn ystyriaeth berthnasol o ran penderfyniadau cynllunio unigol ac apeliadau.

Fodd bynnag, mae cyfnod pontio ar waith ar hyn o bryd nes i'r cynghorau ddatblygu eu polisïau cynllunio eu hunain o dan eu Cynlluniau Datblygu Lleol (gweler Adran 5.2). Mae hyn yn golygu y bydd y cynghorau newydd, yn ystod y cyfnod hwn, yn defnyddio polisi rhai o'r hen Ddatganiadau Polisi Cynllunio ynghyd â'r Datganiad Polisi Cynllunio Strategol newydd wrth ystyried penderfyniadau cynllunio. Fodd bynnag, pan fo gwahaniaeth rhwng y ddau, y Datganiad Polisi Cynllunio Strategol fydd yn cael blaenoriaeth. Ar ôl i'r cynghorau ddatblygu a chyhoeddi eu polisïau eu hunain, bydd yr hen Ddatganiadau Polisi Cynllunio yn peidio â chael effaith. I gael rhagor o fanylion am y cyfnod pontio, gweler y **Datganiad Polisi Cynllunio Strategol**.

## 03.3 Yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban yn nodi diben system gynllunio'r Alban a'i pholisïau defnydd tir penodol ym ***Mholisi Cynllunio'r Alban***. Nodir agweddau gofodol ar bolisïau Llywodraeth yr Alban yn ***Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban 3***. Cyhoeddwyd fersiynau wedi'u diweddaru o'r ddwy ddogfen hyn ym mis Mehefin 2014. Ceir cyngor a chanllawiau manylach ar bynciau penodol mewn cyfres o ***Nodiadau Cyngor Cynllunio, Cylchlythyrau Cynllunio, Canllawiau a Llythyrau gan y Prif Gynllunydd***.

## 03.4 Cymru

Cyhoeddwyd ***Polisi Cynllunio Cymru*** yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002, ac mae'n nodi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio yng Nghymru, er mwyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi eu Cynlluniau Datblygu statudol oddi mewn iddo. Dyma'r brif ffynhonnell awdurdodol ar gyfer polisi cynllunio cenedlaethol.

Cynhelir ymgynghoriad bob tro y caiff y polisi cynllunio cenedlaethol ei ddiweddaru ac yna ymgorfforir y diwygiadau yn y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru. ***Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7)*** yw'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru, ac fe'i cyhoeddwyd fel dogfen ar-lein yn unig ym mis Gorffennaf 2014.

Mae ***Polisi Cynllunio Mwynau Cymru*** yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cyfatebol ar gyfer echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig.

Mae ***Nodiadau Cyngor Technegol*** yn cynnwys canllawiau manwl mewn meysydd penodol. Ceir cyfres gyfatebol ar gyfer mwynau, o'r enw ***Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau***. Ar hyn o bryd ceir 21 Nodyn Cyngor Technegol, a dau Nodyn Cyngor Technegol Mwynau, sy'n seiliedig ar bynciau penodol.

Bydd ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** yn cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd a fydd yn nodi polisïau cynllunio gofodol cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn disodli ***Cynllun Gofodol Cymru*** a bydd yn rhan o'r 'cynllun datblygu' ffurfiol ar gyfer Cymru. Rhaid i gynlluniau datblygu a baratoir gan gyrff eraill (Strategol a Lleol) roi ystyriaeth i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Caiff ei ddefnyddio hefyd i ddynodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (gweler Adran 7 isod).

# 04.Strategaethau/cynllunio rhanbarthol

## 04.1 Lloegr

***Dirymwyd*** y strategaethau gofodol rhanbarthol gan Lywodraeth Glymblaid flaenorol y DU, ac eithrio ambell i bolisi unigol o rai strategaethau gofodol rhanbarthol penodol. Cyhoeddir rhagor o fanylion am yr hyn sy'n weddill o bob strategaeth mewn "Datganiad Ôl-fabwysiadu" i bob rhanbarth.

Yn Llundain Fwyaf, mae Cynllun Llundain o dan nawdd y Maer yn dal i fodoli, ac mae'n parhau i ddarparu'r cyd-destun strategol ar gyfer materion sy'n effeithio ar Lundain yn ei chyfanrwydd.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU "ddyletswydd i gydweithredu" ag awdurdodau cyfagos, a bydd hon yn disodli trefniadau cynllunio rhanbarthol ffurfiol. Golyga hyn fod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydweithredu ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau gweinyddol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Rhaid i'r ddyletswydd hon gael ei hadlewyrchu mewn unrhyw Gynllun Lleol.

Mae adran 28 o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* yn galluogi awdurdodau lleol i baratoi un neu fwy o ddogfennau datblygu lleol ar y cyd.

## 04.2 Gogledd Iwerddon

Gweler Adran 3.2 uchod.

## 04.3 Yr Alban

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn nodi gweledigaeth ar gyfer datblygiad hirdymor pedwar prif ddinas-ranbarth yr Alban (rhanbarthau yw'r rhain sy'n canolbwyntio ar Aberdeen, Dundee, Caeredin a Glasgow), gan ganolbwyntio ar faterion megis tir ar gyfer tai, datblygiadau busnes a manwerthu mawr, darparu seilwaith a lleiniau/rhwydweithiau glas.

Caiff Cynlluniau Datblygu Strategol eu drafftio gan Awdurdodau Cynllunio Datblygu Strategol, a diffinnir aelodaeth yr awdurdodau hyn mewn gorchmynion dynodi statudol. Mae dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio i gyhoeddi Cynllun Datblygu Strategol a'i ddiweddaru o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio gyhoeddi a diweddaru cynllun gwaith gan amlinellu eu rhaglen ar gyfer paratoi ac adolygu'r Cynllun Datblygu Strategol ac ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhaid i'r cynllun gwaith hefyd gynnwys datganiad cyfranogi sy'n nodi sut y bydd pobl leol a rhanddeiliaid eraill yn cael eu cynnwys yn y gwaith o baratoi'r cynllun. Rhaid paratoi rhaglen weithredu i gyd-fynd â phob Cynllun Datblygu Strategol, a rhaid ei diweddaru o leiaf unwaith bob dwy flynedd.

Mae'r broses ar gyfer datblygu ac archwilio Cynllun Datblygu Strategol yn debyg iawn i'r hyn a esbonnir yn Adran 5.3 ar Gynlluniau Datblygu Lleol isod. Y gwahaniaeth allweddol yw mai Gweinidogion yr Alban sy'n cael y gair olaf ynglŷn ag addasu, mabwysiadu neu wrthod Cynllun Datblygu Strategol.

## 04.4 Cymru

Nid oes cynllunio rhanbarthol statudol yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** yn cynnwys pwerau i Lywodraeth Cymru nodi Ardaloedd Cynllunio Strategol sy'n fwy na'r Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol, a phwerau i sefydlu Paneli Cynllunio Strategol ar gyfer yr ardaloedd hyn. Bydd y paneli hyn yn cynnwys aelodau etholedig o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n rhan o'r ardaloedd dan sylw. Os caiff panel ei sefydlu ar gyfer ardal, bydd wedyn yn paratoi Cynllun Datblygu Strategol a fydd yn rhan o'r "cynllun datblygu" ffurfiol ar gyfer yr ardal honno. Bydd Cynllun Datblygu Strategol yn ymdrin â materion 'trawsffiniol' fel tai a thrafnidiaeth. Bydd rhaid iddo hefyd roi ystyriaeth i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler Adran 3 uchod). Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn Ardal Cynllunio Strategol ystyried y Cynllun Datblygu Strategol wrth ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu na fydd angen mwy na thair Ardal Cynllunio Strategol o bosibl, ac y byddai'r rhain yn cwmpasu rhannau o Gymru yn unig. Mae Llywodraeth bresennol Cymru hefyd wedi ***cyhoeddi cynigion*** i leihau nifer bresennol yr awdurdodau lleol yng Nghymru o 22 i ddim ond 8 neu 9. Os bydd hyn yn digwydd, bydd llai o angen am Ardaloedd Cynllunio Strategol.

# 05.Cynlluniau Datblygu Lleol

## 05.1 Lloegr

Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (gweler Adran 3) yn gorchymyn y dylai pob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Lleol ar gyfer ei ardal.[2] Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol, fodd bynnag, i baratoi Cynllun Lleol.

Yn ôl y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, dylai Cynlluniau Lleol fod yn uchelgeisiol ond yn realistig. Dylent nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer yr ardal a chael eu llunio dros amserlen "briodol", sef 15 mlynedd fel arfer. Dylai'r Cynllun Lleol fod yn seiliedig ar dystiolaeth ddigonol, gyfredol a pherthnasol am nodweddion a rhagolygon economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Caiff y Cynllun Lleol ei archwilio gan arolygydd annibynnol sy'n gyfrifol am asesu a yw'r cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r ddyletswydd i gydweithredu a gofynion cyfreithiol eraill. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau, o dan adran 21 o ***Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004***, i addasu Cynllun Lleol ar unrhyw adeg cyn iddo gael ei fabwysiadu'n swyddogol, os bydd ef/hi o'r farn ei fod yn "anfoddhaol". Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd roi cyfarwyddyd bod yn rhaid cyflwyno unrhyw gynllun i gael ei gymeradwyo.

Gellir adolygu Cynlluniau Lleol yn gyfan neu'n rhannol er mwyn ymateb yn hyblyg wrth i amgylchiadau newid, ond os bydd hyn yn digwydd, rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus unwaith eto a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd os bwriedir gwneud newid perthnasol iddynt.

Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn rhoi cyfarwyddyd y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd roi pwys ar bolisïau perthnasol mewn cynlluniau sydd wrthi'n cael eu paratoi yn ôl yr ystyriaethau a ganlyn:

- ar ba gam y mae'r broses o baratoi'r cynllun dan sylw (po fwyaf o waith paratoi sydd eisoes wedi'i wneud, po fwyaf o bwys y gellir ei roi);
- i ba raddau y ceir gwrthwynebiadau heb eu datrys i bolisïau perthnasol (po leiaf sylweddol yw'r gwrthwynebiadau sydd heb eu datrys, po fwyaf o bwys y gellir ei roi);
- pa mor gyson yw'r polisïau perthnasol yn y cynllun dan sylw â'r polisïau yn y Fframwaith hwn (po agosaf yw'r polisïau yn y cynllun dan sylw at y polisïau yn y Fframwaith, po fwyaf o bwys y gellir ei roi).

Mewn ***datganiad ysgrifenedig*** i'r Senedd ar 21 Gorffennaf 2015, dywedodd Llywodraeth y DU y bydd yn ymyrryd, mewn achosion lle nad oes cynllun lleol wedi'i baratoi erbyn dechrau 2017—bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Fframwaith—i drefnu bod y cynllun yn cael ei ysgrifennu, mewn ymgynghoriad â phobl leol, i gyflymu'r broses o baratoi cynllun lleol.[3] Mae ***Bil Tai a Chynllunio 2015-16*** bellach yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu ar gyfer y newid hwn ac ar gyfer ymyrraeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y broses o baratoi cynlluniau lleol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adran ar baratoi cynlluniau yn Lloegr yn y ***Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol.***

---

[2] Yn Lloegr, Cynghorau Dosbarth, Cynghorau Bwrdeistref Llundain, Cynghorau Sir, Awdurdodau Llynnoedd, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdod Llundain Fwyaf yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol

[3] 21 Gorffennaf 2015 **HCWS166**

## 05.2 Gogledd Iwerddon

Mae ***Deddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011*** yn sefydlu system newydd o gynllunio datblygiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon. O dan y system newydd, cynghorau lleol sy'n gyfrifol am ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol yn hytrach na'r Adran. Mae'r system newydd yn diffinio cynlluniau datblygu fel Cynlluniau Datblygu Lleol a rhaid i'r rhain fod yn seiliedig ar ymgynghoriad â'r gymuned leol.

Mae ***Rheoliadau Cynllunio (Cynllun Datblygu Lleol) (Gogledd Iwerddon) 2015*** yn nodi'n fwy manwl y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ddarparu fframwaith 15 mlynedd ynglŷn â sut y dylai ardal y Cyngor edrych yn y dyfodol trwy benderfynu pa fath o ddatblygiadau y dylid ei annog, ar ba raddfa y dylent fod, a lle y dylid eu lleoli. Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, rhaid i'r cyngor roi ystyriaeth i'r Datganiad Polisi Cynllunio Strategol sydd newydd ei ddatblygu yn ogystal â chyflawni elfennau gofodol cynllun cymunedol y cyngor.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ffurfio o ddwy ddogfen: strategaeth y cynllun a'r cynllun polisïau lleol. O dan y system newydd hon sy'n cael ei harwain gan gynlluniau, y Cynllun Datblygu Lleol fydd y brif ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau.

O dan broses y Cynlluniau Datblygu Lleol, bydd gan yr Adran swyddogaeth o safbwynt goruchwylio a chraffu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chynlluniau, polisïau a chanllawiau llywodraeth ganolog. Bydd gan y gymuned leol hefyd ran bwysig i'w chwarae yn y broses o baratoi'r cynllun. Bydd y cyngor yn paratoi Datganiad Cynnwys y Gymuned sy'n nodi'r camau allweddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn rhoi gwybod i'r gymuned sut a phryd y gallant gymryd rhan.

Nes i'r cynghorau lleol newydd ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol eu hunain, bydd y cynlluniau datblygu presennol a wnaed gan yr Adran o dan yr hen system yn parhau i fodoli.

I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at y **Nodiadau Ymarfer ar gyfer Cynlluniau Datblygu** a baratowyd gan yr Adran.

## 05.3 Yr Alban

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cwmpasu’r Alban yn ei chyfanrwydd gan nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd ac amlinellu polisïau sy’n llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae’n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio[4] gyhoeddi Cynllun(iau) Datblygu Lleol sy’n cwmpasu ei ardal, ac yna'u diweddaru o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Yn ogystal, rhaid i Awdurdodau Cynllunio gyhoeddi a diweddaru cynllun gwaith ar gyfer y cynllun datblygu sy’n amlinellu eu rhaglen ar gyfer paratoi ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac ymgysylltu â’r cyhoedd. Rhaid i’r cynllun gwaith hefyd gynnwys datganiad cyfranogi sy’n nodi sut y bydd pobl leol a rhanddeiliaid eraill yn cael eu cynnwys yn y gwaith o baratoi’r cynllun.

Cyn llunio Cynllun Datblygu Lleol, rhaid i Awdurdod Cynllunio baratoi adroddiad ar y prif faterion, gan amlinellu ei gynigion cyffredinol ar gyfer datblygu ei ardal a chynigion penodol o ran lle y dylai datblygiad ddigwydd a lle na ddylai ddigwydd. Rhaid i adroddiad ar y prif faterion hefyd gynnwys un gyfres neu fwy o gynigion rhesymol eraill, fel dewis gwahanol. Yn olaf, mae’n rhaid iddo dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y cynigion a ffefrir a’r cynigion eraill, a strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol presennol (os oes gwahaniaeth). Yna cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad ar y prif faterion.

---

[4] Yn yr Alban, cynghorau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yw'r Awdurdodau Cynllunio

Ar ôl ystyried y sylwadau ar yr adroddiad ar y prif faterion, rhaid i Awdurdod Cynllunio gyhoeddi cynllun arfaethedig a chynnal chwe wythnos o ymgynghori cyhoeddus o leiaf. Ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben, gall yr Awdurdod Cynllunio addasu'r cynllun mewn ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law. Yna caiff y cynllun ei gyflwyno i Weinidogion yr Alban, ynghyd â'r rhaglen weithredu arfaethedig. Os bydd unrhyw sylwadau heb eu datrys, bydd Gweinidogion yr Alban yn penodi Cofnodwr i archwilio'r cynllun arfaethedig. Bydd y Cofnodwr yn cynnal archwiliad ac yn paratoi adroddiad gydag argymhellion i'r Awdurdod Cynllunio. Yn gyffredinol, mae argymhellion Cofnodwr yn rhwymo'r Awdurdod Cynllunio. Yna rhaid i'r Awdurdod addasu ac ailgyhoeddi'r cynllun, rhoi cyhoeddusrwydd ynglŷn â'i fwriad i fabwysiadu'r cynllun a'i gyflwyno i Weinidogion yr Alban. Gall yr Awdurdod Cynllunio fabwysiadu'r cynllun ar ôl 28 diwrnod, oni bai bod Gweinidogion yr Alban yn rhoi cyfarwyddyd iddo beidio â gwneud hynny.

Rhaid i bob Cynllun Datblygu Lleol gael ei ategu gan raglen weithredu, a rhaid ei diweddaru o leiaf unwaith bob dwy flynedd.

## 05.4 Cymru

Cyflwynodd ***Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*** ofyniad statudol ar bob un o'r 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol[5] i baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi cynigion a pholisïau ar gyfer defnyddio'r holl dir lleol yn y dyfodol a hwn, ynghyd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol, yw'r "cynllun datblygu" ffurfiol yng Nghymru. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cwmpasu cyfnod o ddeg i bymtheg mlynedd a dylai adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Dylai hefyd ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar ôl iddo gael ei baratoi, yn ogystal â'r Cynllun Datblygu Strategol, os oes un (gweler Adrannau 3 a 4 uchod). Pan fo Cynllun Datblygu Strategol wedi'i sefydlu, dim ond Cynllun Datblygu Lleol 'ysgafn' y bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei baratoi ar gyfer ei ardal yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn paratoi cynllun wedi'i adneuo, sef drafft cyflawn o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno'r strategaeth a ffefrir ar gyfer yr ardal. Yna mae'r Arolygiaeth Gynllunio (ar ran Llywodraeth Cymru) yn archwilio'r cynllun wedi'i adneuo a dogfennau cysylltiedig eraill. Nod yr archwiliad cyhoeddus yw sicrhau bod y cynllun yn 'gadarn', a bod ystyriaeth wedi'i rhoi i farn pawb sydd wedi gwneud sylwadau arno.

Bydd yr arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i'r cynllun, a bydd yn esbonio pam mae angen y newidiadau hyn. Mae barn yr arolygydd yn rhwymo'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol gan gynnwys: galw cynllun i mewn er mwyn i Lywodraeth Cymru benderfynu arno; rhoi cyfarwyddyd i awdurdod beidio â mabwysiadu'r cynllun os ystyrir bod argymhellion yr arolygydd yn groes i bolisi cenedlaethol; a rhoi cyfarwyddyd y dylid addasu cynllun neu baratoi un arall i gymryd ei le. Gall hefyd roi cyfarwyddyd i ddau neu fwy o awdurdodau weithio gyda'i gilydd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

[5] Yng Nghymru, y 22 o Awdurdodau Unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.

# 06.Cynlluniau cymdogaeth/cymunedol

## 06.1 Lloegr

O dan bwerau a ddarperir gan ***Ddeddf Lleoliaeth 2011*** gall fforymau cymdogaeth a chynghorau plwyf sefydlu polisïau cynllunio cyffredinol ar gyfer datblygu a defnyddio tir mewn cymdogaeth. Gelwir y rhain yn Gynlluniau Datblygu Cymdogaeth. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i baratoi Cynlluniau Lleol sy'n pennu'r cyd-destun strategol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Cymdogaeth. Ni all polisïau mewn Cynllun Datblygu Cymdogaeth rwystro datblygiad sydd eisoes yn rhan o'r cynllun lleol. Yr hyn y gallant ei wneud yw llunio a dylanwadu ar gyfeiriad y datblygiad hwnnw a sut olwg a fydd arno.

Nid yw Cynlluniau Datblygu Cymdogaeth yn dod i rym oni fydd cefnogaeth iddynt gan y mwyafrif mewn refferendwm o'r gymdogaeth. Rhaid iddynt hefyd fodloni nifer o amodau i sicrhau bod cynlluniau'n cydymffurfio â'r gyfraith ac yn rhoi sylw i ystyriaethau polisi ehangach (e.e. polisi cenedlaethol). Dyma'r amodau:

– rhaid iddynt ystyried polisi cynllunio cenedlaethol;

– rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol â pholisïau strategol o ran y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal leol (h.y. megis mewn strategaeth graidd); a

– rhaid iddynt fod yn gydnaws â rhwymedigaethau'r UE a gofynion hawliau dynol.

Os bydd cynigion yn cael eu cymeradwyo mewn refferendwm, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ddod â'r cynllun cymdogaeth i rym. Pan fydd mewn grym, daw'n rhan o'r fframwaith cyfreithiol a rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio ar gyfer yr ardal yn unol ag ef, yn ogystal â'r Cynllun Lleol ar gyfer yr ardal ehangach (gweler Adran 5.1).

## 06.2 Gogledd Iwerddon

Mae ***Deddf Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2014*** yn gosod dyletswydd statudol ar gynghorau i lunio a gweithredu trefniadau ar gyfer cynllunio cymunedol drwy baratoi Cynllun Cymunedol ar gyfer eu hardal. Mae'r Cynllun Cymunedol yn seiliedig ar ymgysylltu â'r gymuned ac yn darparu fframwaith y mae'n rhaid i gynghorau, adrannau, partneriaid statudol a sefydliadau perthnasol eraill weithio gyda'i gilydd oddi mewn iddo i ddatblygu a gweithredu gweledigaeth ar y cyd. Mae hon yn weledigaeth hirdymor ar gyfer hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal trwy gyflwyno gwell gwasanaethau.

Mae Deddf 2014 yn darparu ar gyfer llunio rhestr o bartneriaid statudol y mae'n rhaid iddynt gymryd rhan yn y broses cynllunio cymunedol a'i chefnogi. Mae'r Adran wedi llunio deddfwriaeth ddrafft, sef *Gorchymyn Llywodraeth Leol (Partneriaid Cynllunio Cymunedol) (Gogledd Iwerddon) 2015* drafft, a bwriedir iddo fod ar waith erbyn diwedd 2015[6]. Mae'r ffaith fod cysylltiad statudol wedi'i greu rhwng y Cynllun Cymunedol a datblygiad y Cynlluniau Datblygu Lleol o dan adran 77 o **Ddeddf Llywodraeth Leol 2014** hefyd yn unigryw i Ogledd Iwerddon.

I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at ***Guidance to Councils: Community Planning Foundation Programme*** a baratowyd gan yr Adran.

---

[6]Mae'r Rheoliadau drafft i'w gweld yn Atodiad A o'r **ddogfen ymgynghori**

## 06.3 Yr Alban

Nid yw cynlluniau cymdogaeth a chynlluniau cymunedol yn nodwedd ffurfiol o system gynllunio'r Alban. Fodd bynnag, mae system ***Cynllunio Cymunedol*** ar waith, gyda'r nod o ddwyn cyrff cyhoeddus a chymunedau lleol ynghyd i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

## 06.4 Cymru

Nid oes hawl yng Nghymru sy'n cyfateb i'r pŵer a gyflwynwyd gan ***Ddeddf Lleoliaeth 2011*** i gymunedau yn Lloegr lunio Cynlluniau Datblygu Cymdogaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn treialu'r syniad o baratoi Cynlluniau Lleoedd. Gyda'r Cynlluniau Lleoedd, bydd Cynghorau Cymuned a Thref yn gweithio gyda'u Hawdurdod Cynllunio Lleol i nodi a bwrw ymlaen â Chanllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer eu cymunedau, gan drosi a datblygu polisïau a dyraniadau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol i'w rhoi ar waith yn lleol. Ni fydd y cynlluniau hyn yn rhan o'r 'cynllun datblygu' ffurfiol, fodd bynnag.

Fel mewn rhannau eraill o'r DU ceir system ***Cynllunio Cymunedol*** sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gymunedol i wella'r modd y darperir gwasanaethau'n lleol. Bydd ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*** yn disodli'r system hon yn fuan trwy ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi Cynlluniau Llesiant.

# 07.Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

## 07.1 Lloegr

Cyflwynodd ***Deddf Cynllunio 2008*** broses newydd i roi caniatâd datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol fel arfer yn ddatblygiadau ar raddfa fawr (yn ymwneud ag ynni, trafnidiaeth, dŵr, dŵr gwastraff neu wastraff) y mae angen math o ganiatâd arnynt a elwir yn "caniatâd datblygu". Yn sgil ymestyn y gyfundrefn yn 2013, caiff rhai prosiectau busnes a masnachol hefyd ddewis bod yn rhan o'r broses hon bellach.

Yn dilyn newidiadau a wnaed gan ***Ddeddf Lleoliaeth 2011***, yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn y maes dan sylw sydd bellach yn gyfrifol am benderfyniadau ar y prosiectau hyn. Bydd ***Cyfarwyddiaeth Seilwaith Genedlaethol*** yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud argymhellion i helpu i lywio penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Dylai'r penderfyniadau ynglŷn â'r prosiectau hyn gael eu gwneud yn unol â'r ***Datganiadau Polisi Cenedlaethol*** a gymeradwyir gan Senedd y DU.

Rhaid i unrhyw ddatblygwr sy'n dymuno ymgymryd â Phrosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol wneud cais i'r ***Gyfarwyddiaeth Seilwaith Genedlaethol*** yn gyntaf. Bwriedir i'r broses gymryd tua 12-15 mis i'r adeg y derbynnir y cais yn swyddogol. Os bydd rhai mathau o ddatblygiadau seilwaith yn mynd y tu hwnt i'r trothwyon a nodir yn Neddf 2008, fe'u hystyrir yn rhai o arwyddocâd cenedlaethol y mae angen caniatâd datblygu ar eu cyfer. Ymdrinnir â mân ddatblygiadau cysylltiedig drwy'r un broses o wneud penderfyniadau.

Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **newid ychwanegol** i'r drefn ar gyfer rhoi caniatâd i gynlluniau ynni, sef trosglwyddo penderfyniadau ynglŷn â phob cais ar gyfer cynlluniau cynhyrchu ynni gwynt ar y tir yn ôl i'r gyfundrefn cynllunio gwlad a thref, i'w gwneud gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Lloegr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyn bellach yn rhan o ***Fil Ynni 2015-16***.

## 07.2 Gogledd Iwerddon

O dan ***Ddeddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011***, daw datblygiad o dan hierarchaeth tair haen newydd. Mae hyn yn cynnwys: datblygiadau lleol, datblygiadau mawr a datblygiadau o arwyddocâd rhanbarthol. Nodir rhagor o fanylion am y categorïau yn ***Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Datblygu) (Gogledd Iwerddon) 2015***.

Cynghorau fydd yn ymdrin â phob datblygiad lleol a mawr, a bydd yn rhaid ymgynghori â'r gymuned cyn cyflwyno cais am ddatblygiadau mawr.

Rhaid i ymgeisydd roi cyfle i'r rhanddeiliaid i gyd a chymunedau lleol drafod a lleisio eu barn cyn cyflwyno cais ffurfiol ar gyfer datblygiad mawr. Rhaid i lefel a graddfa'r broses ymgynghori cyn cyflwyno cais fod yn gymesur â graddfa a chymhlethdod y datblygiad arfaethedig.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn ***Nhaflen Wybodaeth 16 sy'n rhoi canllawiau ar ymgynghori â'r gymuned cyn cyflwyno cais.***

O dan Ddeddf Cynllunio 2011, ystyr datblygiad o arwyddocâd rhanbarthol yw unrhyw brosiect mawr y mae'r Adran yn ystyried ei fod o arwyddocâd rhanbarthol. Bydd rhaid ymgynghori â'r gymuned hefyd cyn cyflwyno ceisiadau, a'r Adran fydd yn penderfynu yn eu cylch. Yn ôl Atodlen 1 o Reoliadau 2015, bydd unrhyw gais mawr o arwyddocâd rhanbarthol yn cynnwys y rhai a restrir o dan Golofn 3 - er enghraifft unrhyw orsaf sy'n cynhyrchu trydan ar lefel o 30 megawat neu fwy, neu unrhyw gynllun i echdynnu hydrocarbonau anghonfensiynol.

Caiff yr Adran ofyn i'r **Comisiwn Apeliadau Cynllunio** gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus i unrhyw gais o arwyddocâd rhanbarthol. Wrth benderfynu ar y cais cynllunio, rhaid i'r Adran roi ystyriaeth i unrhyw adroddiad a lunnir yn sgil yr ymchwiliad. Fodd bynnag, yr Adran sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Yn achos ceisiadau y mae cynghorau'n ymdrin â nhw, mae Deddf Cynllunio 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau baratoi Cynllun Dirprwyo. Mae hyn yn darparu ar gyfer dirprwyo ceisiadau lleol i swyddogion, tra bo'r pwyllgor cynllunio yn penderfynu ynglŷn â datblygiadau mawr, ceisiadau dadleuol a rhai y cyflwynir nifer o wrthwynebiadau iddynt.

I gael rhagor o wybodaeth gweler **Nodyn Ymarfer 15 ar gynlluniau dirprwyo**.

## 07.3 Yr Alban

Mae'r holl ddatblygiadau arfaethedig yn yr Alban yn perthyn i un o dri chategori mewn hierarchaeth statudol o ddatblygiadau, a gellir eu disgrifio fel a ganlyn:

Datblygiadau cenedlaethol: Datblygiadau a ddynodir yn rhai o arwyddocâd cenedlaethol yn Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban

Datblygiadau mawr: Diffinnir naw dosbarth o ddatblygiadau ar raddfa fawr fel datblygiadau mawr yn ***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hierarchaeth o Ddatblygiadau) (yr Alban) 2009.***

Datblygiadau lleol: Caiff unrhyw ddatblygiad nad yw'n ddatblygiad cenedlaethol nac yn ddatblygiad mawr ei gategoreiddio'n awtomatig fel datblygiad lleol.

Dynodir datblygiadau cenedlaethol yn ***Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban 3***, a ystyriwyd gan Senedd yr Alban i sefydlu pa mor angenrheidiol yw'r datblygiadau hyn. Dim ond mewn cysylltiad â'r manylion y gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad i gais am ddatblygiad cenedlaethol, oherwydd y tybir bod yr angen am y datblygiad hwnnw wedi'i sefydlu yn sgil y ffaith iddo gael ei gynnwys yn ***Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban 3***.

## 07.4 Cymru

Yng Nghymru, nid yw'r broses caniatâd datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a sefydlwyd gan ***Ddeddf Lleoliaeth 2011*** ond yn berthnasol i fathau o ddatblygiadau lle roedd y cyfrifoldeb wedi'i gadw'n ôl yn flaenorol gan Lywodraeth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau ynni dros 50 Megawat ar y tir/dros 100 Megawat ar y môr, prif wifrau trydan, piblinellau traws gwlad, storfeydd nwy o dan ddaear a rhai mathau o ddatblygiadau harbwr.

Yng Nghymru, yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn hytrach na'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n ymdrin â chaniatâd am 'ddatblygiad cysylltiedig' (er enghraifft is-orsaf bŵer sy'n gysylltiedig â gorsaf bŵer newydd), oherwydd y setliad datganoli.

Mae **Bil Cymru drafft** a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, yn ceisio datganoli i Weinidogion Cymru y cyfrifoldeb am roi caniatâd datblygu ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni hyd at 350MW ar y tir ac ar y môr yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Effaith gyfunol y darpariaethau yn y Bil yw datgymhwyso pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 2008 i roi caniatâd datblygu mewn perthynas â gorsafoedd cynhyrchu trydan hyd at 350MW (gweler Adran 7.1 uchod). Mae'r Bil i bob pwrpas yn trosglwyddo prosiectau o'r fath i'r system cynllunio gwlad a thref yng Nghymru os ydynt ar y tir.

Argymhellwyd y terfyn o 350 Megawat gan **Gomisiwn Silk** ar y sail y byddai'n dod â'r rhan fwyaf o gynlluniau ynni adnewyddadwy o fewn system Cymru, ond y byddai cynlluniau mwy o 'bwysigrwydd strategol' yn dal i gael eu penderfynu gan Lywodraeth y DU.

Bydd **cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig** ynglŷn â throsglwyddo cynlluniau gwynt ar y tir allan o'r gyfundrefn caniatâd datblygu (gweler Adran 7.1 uchod) yn golygu y bydd penderfyniadau ynglŷn â phob cais o'r fath yng Nghymru yn y dyfodol yn dod o fewn y gyfundrefn cynllunio gwlad a thref a osodir gan Weinidogion Cymru yng Nghymru.

Bydd ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** yn cyflwyno categori newydd, sef Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, yng Nghymru. Ceisiadau cynllunio yw'r rhain ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad dros drothwyon penodol a fydd yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi **ymgynghori** ar sut i ddiffinio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r diffiniad terfynol yn debygol o gynnwys prosiectau ynni o rhwng 25 a 50 Megawat, yn ogystal â datblygiadau sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd a meysydd awyr. Nid ydym yn gwybod eto a fydd y diffiniad o Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael ei ymestyn i gynnwys prosiectau ynni ar y tir hyd at 350 Megawat a phob cais ar gyfer prosiectau gwynt ar y tir, ar ôl i'r rhain gael eu datganoli. Disgwylir i'r broses ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gael ei chyflwyno yn gynnar yn 2016.

# 08. Gorchmynion datblygu cymdogaeth/Gorchmynion hawl i adeiladu cymunedol

## 08.1 Lloegr

Yn ogystal â darparu ar gyfer Cynlluniau Datblygu Cymdogaeth, mae ***Deddf Lleoliaeth 2011*** hefyd yn caniatáu i gymunedau baratoi Gorchmynion Datblygu Cymdogaeth a Gorchmynion Hawl i Adeiladu Cymunedol. Rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddarparu cymorth.

I bob pwrpas, mae Gorchymyn Datblygu Cymdogaeth yn rhoi caniatâd cynllunio i gymunedau ar gyfer datblygiadau sy'n cydymffurfio â'r gorchymyn.  Mae'n dileu'r angen i gyflwyno cais cynllunio ffurfiol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.  Gellir defnyddio Gorchmynion Datblygu Cymdogaeth i ganiatáu datblygiad penodol, neu fath penodol o ddatblygiad.  Gallant roi caniatâd cynllunio i bethau fel tai newydd, siop neu dafarn newydd, neu ganiatáu estyniadau o faint penodol ar draws ardal gyfan y gymdogaeth.

Math o Orchymyn Datblygu Cymdogaeth yw Gorchymyn Hawl i Adeiladu Cymunedol. Mae'n orchymyn sy'n rhoi caniatâd i grŵp cymunedol ymgymryd â datblygiadau bach, mewn safle penodol, heb yr angen am ganiatâd cynllunio.

Mae rhagor o wybodaeth am y gorchmynion hyn ar gael ar y dudalen ar wefan Llywodraeth y DU sy'n ymdrin â ***rhoi mwy o bwerau i gymunedau o ran cynllunio datblygu lleol***.

## 08.2 Gogledd Iwerddon

Nid oes dim sy'n cyfateb i Orchmynion Datblygu Cymdogaeth na Gorchmynion Hawl i Adeiladu Cymunedol yng Ngogledd Iwerddon.

## 08.3 Yr Alban

Nid oes dim yn yr Alban sy'n cyfateb i Orchmynion Datblygu Cymdogaeth na Gorchmynion Hawl i Adeiladu Cymunedol.

## 08.4 Cymru

Nid oes gorchmynion cyfatebol yng Nghymru.

# 09.Hawliau datblygu a ganiateir

## 09.1 Lloegr

Hawliau i wneud rhai newidiadau i adeilad neu dir heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio yw hawliau datblygu a ganiateir. Deillia'r rhain o ganiatâd cynllunio cyffredinol a roddir gan Senedd y DU yng ***Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 2015*** *(Gorchymyn 2015),* yn hytrach nag o ganiatâd a roddir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae Atodlen 2 o Orchymyn 2015 yn rhestru dosbarthiadau ar wahân o ddatblygiadau a ganiateir.

Mae hawliau datblygu a ganiateir yn fwy cyfyngedig mewn rhai ardaloedd, a elwir yn "ardaloedd dynodedig". Mae'r rhain yn gyffredinol mewn ardaloedd cadwraeth, Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) neu Lynnoedd Norfolk neu Suffolk. Bydd angen caniatâd cynllunio cyn y caniateir gwneud newidiadau i adeilad mewn ardaloedd dynodedig. Mae cyfyngiadau hefyd os yw'r eiddo yn adeilad rhestredig.

Mewn rhai amgylchiadau gall Awdurdodau Cynllunio Lleol atal dros dro hawliau datblygu a ganiateir yn eu hardal. O dan Erthygl 4 o Orchymyn 1995, mae ganddynt bwerau i ddileu hawliau datblygu a ganiateir. Er mai Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gwneud cyfarwyddiadau Erthygl 4, rhaid hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd â phwerau eang i addasu neu ganslo'r rhan fwyaf o gyfarwyddiadau Erthygl 4 ar unrhyw adeg.

## 09.2 Gogledd Iwerddon

O dan Ddeddf Cynllunio 2011, mae system debyg yn gweithredu gyda ***Gorchymyn Cynllunio (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Gogledd Iwerddon) 2015***. Yn amodol ar esemptiadau a chyfyngiadau, mae hwn yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer rhai mathau penodol o ddatblygiad a ganiateir, a chânt eu rhestru yn Atodlen 1 e.e. addasiad / estyniad / gwaith cynnal a chadw i dŷ annedd; gosod offer microgynhyrchu domestig megis paneli solar; ac adeiladu, codi a newid adeiladau amaethyddol penodol.

Mae gan yr Adran neu gyngor y pŵer i gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir neu i'w dileu, er budd amwynder lleol, gan ddefnyddio cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn. Gellir hefyd eu dileu drwy amodau sy'n cael eu cysylltu â chaniatâd cynllunio.

Rhydd Gorchymyn 2015 y pŵer i gynghorau ddileu hawliau datblygu a ganiateir neu gyfyngu arnynt mewn amgylchedd wedi'i warchod neu amgylchedd sensitif megis ardaloedd cadwraeth neu AHNE, ar gyfer echdynnu mwynau ac ar gyfer datblygiad lle mae Asesiad o Effaith Amgylcheddol yn ofynnol.

## 09.3 Yr Alban

Mae gweithdrefn debyg ar waith yn yr Alban. Tybir yn awtomatig bod caniatâd cynllunio gan rai categorïau datblygu, fel y'u nodir yng ***Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (yr Alban) 1992***. Yn ddiweddar, cafodd y categorïau datblygu sydd â hawliau datblygu a ganiateir eu diwygio o dan ddarpariaethau ***Gorchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (yr Alban) 2014***. Creodd hwn hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer addasiadau neu estyniadau bach i siopau, ysgolion, colegau, prifysgolion ac adeiladau ysbytai a swyddfeydd. Yn ogystal, crëwyd hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer ailwefru cerbydau trydan oddi ar y stryd a rampiau mynediad i'r anabl. Cyflwynwyd diwygiad ychwanegol i hawliau datblygu a ganiateir gan Orchymyn Diwygio 2014 sy'n ymwneud yn benodol â ffyrdd preifat, a elwir yn gyffredin yn draciau neu lwybrau mynydd. Fel yn Lloegr, gellir dileu neu ddiwygio hawliau datblygu a ganiateir drwy

gyfarwyddiadau Erthygl 4, a wneir yn gyffredinol gan Awdurdodau Cynllunio. Nid oes angen i Weinidogion yr Alban gymeradwyo cyfarwyddiadau Erthygl 4.

## 09.4 Cymru

Mae'r mathau o ddatblygiadau a ddiffinnir fel rhai a ganiateir yng Nghymru wedi'u rhestru yng ***Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995*** (Gorchymyn 1995). Roedd Gorchymyn 1995 yn gymwys i Gymru a Lloegr yn wreiddiol, ond mae bellach wedi cael ei ddirymu gan Orchymyn 2015, sy'n Orchymyn cydgrynhoi, yn Lloegr (gweler Adran 9.1). Mae sawl rhan o Atodlen 2 yng Ngorchmynion 1995 a 2015 yr un fath ar gyfer Cymru a Lloegr, ond ceir nifer gynyddol o wahaniaethau. Gwnaed rhai newidiadau i'r rheolau datblygu a ganiateir ar gyfer gwelliannau ac estyniadau i gartrefi yn 2013, ac ar gyfer swyddfeydd, siopau a gwasanaethau ariannol yn 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig i Orchymyn 1995 ac nid yw bob amser yn cyflwyno'r un newidiadau â'r rhai a gyflwynir gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Er enghraifft, yn Lloegr caniateir i uned fanwerthu (dosbarth A1) neu uned gwasanaethau ariannol/proffesiynol (dosbarth A2) gael eu haddasu at ddefnydd preswyl heb ganiatâd cynllunio, yn unol â rhai amodau penodol. Nid yw'r newid hwn wedi'i wneud yng Nghymru hyd yma.

Hefyd, fel yn Lloegr, mae hawliau datblygu a ganiateir yn fwy cyfyngedig mewn "ardaloedd dynodedig" a gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau tebyg i rai'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr (gweler Adran 9.1).

Yn 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bwerau i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud Gorchmynion Datblygu Lleol ar gyfer mathau penodedig o ddatblygiadau. Mae'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddefnyddio'r pwerau hyn yn yr Ardaloedd Menter sydd wedi'u dynodi yng Nghymru.

# 10.Dosbarthiadau defnydd

## 10.1 Lloegr

Mae ***Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987*** (Gorchymyn 1987) yn rhoi defnydd tir ac adeiladau mewn categorïau amrywiol o'r enw "Dosbarthiadau Defnydd". Mae'r categorïau yn rhoi syniad o'r mathau o ddefnydd a all fod ym mhob dosbarth defnydd. Ceir pedwar prif Grŵp:

– Mae Dosbarthiadau yn Grŵp A yn cwmpasu siopau a safleoedd manwerthu eraill fel bwytai a changhennau banc;

– Mae Dosbarthiadau yn Grŵp B y cwmpasu swyddfeydd, gweithdai, ffatrïoedd a warysau;

– Mae Dosbarthiadau yn Grŵp C yn cwmpasu defnyddiau preswyl; ac

– Mae Dosbarthiadau yn Grŵp D yn cwmpasu sefydliadau dibreswyl a defnydd cynnull a hamdden.

Mae categori arall, a elwir yn 'sui generis' ('unigryw') yn bodoli i gwmpasu defnyddiau eraill gan gynnwys swyddfeydd betio a siopau benthyciadau diwrnod cyflog.

Fel arfer ni fydd angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o fewn yr un dosbarthiadau, nac i newid defnydd rhwng rhai o'r dosbarthiadau mewn rhai achosion penodol.

## 10.2 Gogledd Iwerddon

Mae ***Gorchymyn Cynllunio (Dosbarthiadau Defnydd) (Gogledd Iwerddon) 2015 yn darparu system debyg o ddosbarthiadau defnydd.*** Yn gyffredinol, nid oes angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o fewn yr un dosbarth, ond mae angen caniatâd cynllunio i newid rhwng dosbarthiadau defnydd. Wedi dweud hynny, o dan ***Orchymyn Cynllunio (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Gogledd Iwerddon) 2015,*** rhestrir achosion yn Rhan 4 o'r Atodlen lle mae modd newid rhwng dosbarthiadau defnydd heb wneud cais cynllunio.

## 10.3 Yr Alban

Mae ***Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (yr Alban) 1997*** yn nodi 11 o ddosbarthiadau defnydd bras. Fel arfer, nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys newid defnydd o fewn un dosbarth defnydd.

## 10.4 Cymru

Mae Gorchymyn 1987 (gweler Adran 10.1 uchod) hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru wneud eu haddasiadau eu hunain i'r gorchymyn ac felly ceir gwahaniaethau.

Gwnaed rhai newidiadau i Orchymyn 1987 yn Lloegr nad ydynt wedi eu cyflwyno yng Nghymru hyd yma. Yn benodol, yng Nghymru, 'Bwyd a Diod' yw Dosbarth A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Mae hyn yn cynnwys bwytai a chaffis, sefydliadau yfed a siopau tecawê bwyd poeth. Yn Lloegr, mae Dosbarth A3 'Bwyd a diod' wedi ei rannu'n A3 (Bwytai a chaffis), A4 (Sefydliadau yfed), ac A5 (Siopau tecawê sy'n gwerthu bwyd poeth). Daeth y newid hwn i rym ar 21 Ebrill 2005. Felly ni fyddai angen i adeilad yng Nghymru sydd â defnydd Dosbarth A3 ar hyn o bryd gael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i newid o gaffi/bwyty i siop tecawê sy'n gwerthu bwyd poeth. Yn Lloegr, ar y llaw arall, byddai angen caniatâd ar gyfer newid o'r fath.

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2013** y bydd yn cynnal adolygiad o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Bydd yn ystyried y newidiadau a ganiateir rhwng dosbarthiadau defnydd, a sut mae'r dosbarthiadau manwerthu wedi'u rhannu, materion sy'n ymwneud â defnyddiau preswyl megis trosi ddefnyddiau eraill yn dai a'r defnydd o adeiladau amaethyddol.

# 11.Amodau cynllunio

## 11.1 Lloegr

Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol y pŵer i osod amodau cynllunio ar ganiatâd cynllunio. Er bod *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* yn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i osod unrhyw amodau a welant yn dda, rhaid gwneud hyn yn unol â'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, sy'n gorchymyn na ddylid ond gorfodi amodau cynllunio pan maent yn bodloni'r chwe phrawf a ganlyn:

**01.** angenrheidiol;

**02.** perthnasol i gynllunio;

**03.** perthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu;

**04.** posibl eu gorfodi;

**05.** penodol;

**06.** rhesymol ym mhob agwedd arall.

Caiff ymgeisydd apelio yn erbyn unrhyw amodau a osodir. O dan Ddeddf 1990, gellir torri rheolaeth gynllunio trwy fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod a osodwyd ar y caniatâd cynllunio. Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol gymryd camau gorfodi am dorri amodau cynllunio (Gweler Adran 15.1).

## 11.2 Gogledd Iwerddon

Darperir y pŵer i'r Adran neu'r cyngor osod amodau ar ganiatâd cynllunio o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio 2011. Caniateir defnyddio amodau i wella ansawdd y datblygiad ac i alluogi datblygiad i fynd yn ei flaen lle y byddai wedi cael ei wrthod fel arall. Er enghraifft, gellid eu defnyddio i gyflwyno cyfyngiadau amser, i gyfyngu ar y defnydd neu'r hawliau a ganiateir, ac i osod amodau ôl-ofal.

Rhaid i unrhyw amodau a osodir fodloni prawf chwe phwynt er mwyn sicrhau eu bod yn angenrheidiol, yn deg ac yn ymarferol. Mae **Nodyn Ymarfer Rheoli Datblygu 20** yn rhoi mwy o fanylion. Mae'r profion hyn yr un fath ag yn Lloegr (gweler Adran 11.1 uchod).

Rhaid i ganiatâd cynllunio osod terfyn amser gan nodi bod rhaid dechrau'r datblygiad o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd. Fodd bynnag, ceir eithriadau i'r terfyn pum mlynedd. Gellir herio amodau trwy gyflwyno apêl yn ysgrifenedig i'r Comisiwn Apeliadau Cynllunio.

Caiff cyngor gyhoeddi "hysbysiad torri amod" pan na chydymffurfiwyd â'r amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio.

## 11. 3 Yr Alban

Gall Awdurdodau Cynllunio yn yr Alban osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio, er mwyn galluogi datblygiad i fynd yn ei flaen lle y byddai o bosibl wedi bod yn angenrheidiol gwrthod caniatâd fel arall. **Mae Cylchlythyr 4/1998** yn datgan na ddylid ond gosod amodau pan maent yn:

– angenrheidiol

– perthnasol i gynllunio

– perthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu

– posibl eu gorfodi

– penodol.

Mae **adendwm i'r cylchlythyr hwn** yn awgrymu nifer o amodau cynllunio enghreifftiol ac yn rhestru rhesymau boddhaol ac anfoddhaol am osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio.

Gall ymgeiswyr apelio yn erbyn penderfyniad i osod amodau ar y caniatâd cynllunio, neu ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

Gall Awdurdodau Cynllunio orfodi amodau, naill ai drwy gyhoeddi hysbysiad gorfodi, neu hysbysiad torri amod. Ceir hawl i apelio i Weinidogion yr Alban yn erbyn yr hysbysiadau hyn.

## 11.4 Cymru

Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio. Mae'r un profion sy'n berthnasol yn Lloegr hefyd yn berthnasol yng Nghymru (gweler Adran 11.1 uchod).

Mae ***Cylchlythyr*** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2014 yn rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â sut i ddehongli'r chwe phrawf. Mae hefyd yn cynnwys rhestr o amodau 'enghreifftiol' i Awdurdodau Cynllunio Lleol eu defnyddio.

Dylai hysbysiadau ynglŷn â phenderfyniad ddatgan yn eglur a manwl y rhesymau dros yr amodau, a nodi'r holl bolisïau a chynigion perthnasol yn y cynllun datblygu. Dylai caniatâd cynllunio manwl gynnwys amod sy'n pennu y dylai datblygiad ddechrau o fewn cyfnod o bum mlynedd i ddyddiad y caniatâd.

Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol orfodi amodau, naill ai drwy gyhoeddi hysbysiad gorfodi, neu hysbysiad torri amod. Ceir hawl i apelio i Lywodraeth Cymru yn erbyn yr hysbysiadau hyn (gweler hefyd Adran 15.4).

# 12. Caniatâd hysbysebu

## 12.1 Lloegr

Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am weithredu'r system rheoli hysbysebion o ddydd i ddydd ac am benderfynu a ddylid caniatáu hysbyseb benodol ai peidio. Mae'r rheolau wedi'u nodi yn *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Lloegr) 2007***.** Nid oes angen caniatâd cynllunio ar wahân yn ychwanegol at ganiatâd hysbysebu.

Ceir tri chategori o ganiatâd hysbysebu:

- Rhai a ganiateir heb fod angen caniatâd tybiedig na chaniatâd datganedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol;
- Rhai sydd â chaniatâd tybiedig;
- Rhai y mae'n ofynnol iddynt gael caniatâd datganedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Mae'n drosedd arddangos hysbyseb heb ganiatâd, gan gynnwys caniatâd tirfeddiannwr y safle.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried ceisiadau am ganiatâd hysbysebu ar y tudalennau sy'n ymwneud â hysbysebion yng ***Nghanllawiau Ymarfer Cynllunio*** Llywodraeth y DU.

## 12.2 Gogledd Iwerddon

**Mae *Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Hysbysebion) (Gogledd Iwerddon) 2015***, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2011, yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i gynghorau reoleiddio a chyfyngu ar hysbysebion a arddangosir er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd.

Rhaid gwneud cais i'r cyngor am ganiatâd i arddangos, ond rhestrir nifer o eithriadau i hyn yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau (e.e. hysbysebion ar dir amgaeëdig). Gellir rhoi rhai achosion penodol yn y dosbarth sydd â "chaniatâd tybiedig" o dan Atodlen 3 (e.e. hysbysebion gan adrannau neu gynghorau).

Ceir rhagor o wybodaeth yn ***Nodyn Ymarfer Rheoli Datblygu 7*** *yr Adran.*

## 12.3 Yr Alban

Mae ***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (yr Alban) 1984***, fel y'u diwygiwyd, yn rheoleiddio'r rhan fwyaf o hysbysebion a arddangosir yn yr awyr agored yn yr Alban. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhannu hysbysebion yn dri dosbarth:

- *Eithriedig*: hysbysebion nad ydynt yn destun rheolaeth, e.e. hysbysebion mewn adeiladau, wedi'u harddangos ar gerbydau neu falwnau.
- *Caniatâd tybiedig*: hysbysebion yr ystyrir yn awtomatig bod ganddynt ganiatâd. Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys hysbysiadau statudol, arwyddion sy'n rhoi cyfarwyddiadau a rhybuddion, rhai arwyddion dros dro, hysbysebion ar adeiladau busnes. Mae'r Rheoliadau'n nodi nifer o amodau eraill yn ymwneud â lleoliad yr hysbyseb ar adeilad, ei huchder ac am faint o amser y bydd yn cael ei harddangos, er mwyn iddi fod yn gymwys ar gyfer caniatâd tybiedig.
- *Caniatâd datganedig*: Hysbysebion nad ydynt yn y dosbarthiadau uchod, ac y mae'n ofynnol iddynt gael caniatâd datganedig gan yr Awdurdod Cynllunio cyn y gellir eu harddangos.

Mae cyfyngiadau ar arddangos hysbysebion mewn ardaloedd cadwraeth ac ardaloedd â rheolaeth arbennig ("areas of special control"), sef ardaloedd a ddynodwyd gan Awdurdod Cynllunio ac sydd rheolaethau mwy caeth o ran arddangos hysbysebion.  Fodd bynnag, nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i rai dosbarthiadau penodol o hysbyseb.

Mae gan ymgeiswyr hawl i apelio i Weinidogion yr Alban yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd ar gyfer hysbyseb, neu pan osodir amodau ar unrhyw ganiatâd.  Mae gan Awdurdodau Cynllunio bwerau i orfodi rheolaethau hysbysebu, yn bennaf y pŵer i gyflwyno hysbysiad gorfodi pan fo hysbyseb wedi'i harddangos heb ganiatâd neu mewn modd sy'n torri amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd.

## 12.4 Cymru

***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992***, fel y'u diwygiwyd, sy'n rheoleiddio hysbysebion a arddangosir yn yr awyr agored yng Nghymru.  Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i reoli hysbysebion awyr agored er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd.  Mae rhai mathau o hysbysebion wedi'u hesemptio (yn gyffredinol, rhai sy'n llai na 0.3 metr sgwâr) ac mae rhai hysbysebion yn gymwys i gael caniatâd tybiedig.  Mae'n ofynnol i rai eraill gael caniatâd datganedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.  Ceir hawl i apelio i Lywodraeth Cymru pan fo caniatâd hysbysebu wedi'i wrthod.

Mae ***Nodyn Cyngor Technegol 7 (Rheoli Hysbysebion Awyr Agored)*** a gyhoeddwyd ym 1996 yn rhoi canllawiau mwy manwl.

# 13. Asesiadau o'r Effeithiau Amgylcheddol

Mae asesu amgylcheddol yn weithdrefn sy'n sicrhau y caiff goblygiadau amgylcheddol penderfyniadau eu hystyried cyn gwneud y penderfyniadau hynny. Gelwir asesiadau ar gyfer cynigion datblygu unigol yn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Mae Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn asesu'r effaith bosibl - cadarnhaol a negyddol - y gall prosiect arfaethedig ei chael ar yr amgylchedd ac iechyd pobl. Cyflwynir yr wybodaeth hon i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, neu i'r unigolyn perthnasol sy'n gwneud y penderfyniad, ar ffurf Datganiad Amgylcheddol er mwyn iddo gael ei ystyried ochr yn ochr â'r cais cynllunio.

Deddfwriaeth Ewropeaidd (***Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor***) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad o Effaith Amgylcheddol ar rai cynigion cynllunio penodol. Ceir Rheoliadau ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU i drosi gofynion y Gyfarwyddeb. Bydd angen gwneud rhagor o newidiadau i adlewyrchu ***Cyfarwyddeb Ewropeaidd ddiwygiedig*** ynglŷn ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol a fabwysiadwyd yn 2014.

Natur y datblygiad sy'n pennu a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio ar gyfer datblygiad penodol. Mae'n orfodol ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad mawr a restrir yn y Rheoliadau (datblygiadau Atodlen 1), megis gosodiad gwaredu gwastraff.

Mae angen Asesiad ar gyfer datblygiadau eraill pan fydd trothwyon penodol yn cael eu cyrraedd a meini prawf penodol yn cael eu bodloni, a phryd bynnag y maent yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd (datblygiadau Atodlen 2). Un enghraifft fyddai gosodiad tyrbinau gwynt â mwy na 2 dyrbin.

Yn achos rhai datblygiadau, bydd angen ceisio "barn gwmpasu" gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol yn gyntaf, er mwyn pennu a fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio.

Rhaid penderfynu a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer pob prosiect o fath a restrir yn Atodlen 2. Gelwir hon yn "farn sgrinio". Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhaid i'r awdurdod roi ystyriaeth i'r meini prawf dethol perthnasol yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau. Rhaid i'r awdurdod sicrhau bod pob barn sgrinio a chyfarwyddyd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol 16 wythnos ar ôl iddo gael y Datganiad Amgylcheddol i benderfynu ynghylch y cais cynllunio, yn hytrach nag wyth wythnos ar ôl cael y cais cynllunio, fel sy'n arferol. Rhaid iddo geisio barn y cyrff ymgynghori a restrir yn y Rheoliadau. Rhaid i'r awdurdod ystyried y Datganiad Amgylcheddol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth neu farn arall yn ei gylch neu sylwadau a wnaed arno, wrth benderfynu a yw am roi caniatâd i'r datblygiad ai peidio. Os bydd Datganiad Amgylcheddol yn datgelu y byddai datblygiad yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd, nid yw'n dilyn o anghenraid y gwrthodir cais cynllunio. Os rhoddir caniatâd, mae'n bosibl y gosodir amodau i gyd-fynd ag ef sy'n cynnwys camau lliniaru y gellir eu seilio ar y Datganiad Amgylcheddol.

## 13.1 Lloegr

Caiff y Gyfarwyddeb ei deddfu yn Lloegr drwy ***Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2011***. Cynyddwyd y trothwy yn Lloegr ar gyfer rhai prosiectau tai a diwydiannol y mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol ar eu cyfer ym mis Ebrill 2015.

## 13.2 Gogledd Iwerddon

Mae ***Rheoliadau Cynllunio (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Gogledd Iwerddon) 2015*** yn trosi gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol i adlewyrchu'r system gynllunio newydd o dan Ddeddf Cynllunio 2011. Maent yn darparu fframwaith statudol ar gyfer yr Adran a'r cynghorau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau cynllunio.

Fel yn Lloegr, mae'r Rheoliadau'n rhestru prosiectau Atodlen 1 ac Atodlen 2.

## 13.3 Yr Alban

Mae ***Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (yr Alban) 2011*** yn trosi'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol, fel y'i diwygiwyd, i system gynllunio'r Alban. Fel yn Lloegr, mae'r Rheoliadau'n rhestru prosiectau Atodlen 1 ac Atodlen 2.

Ceir canllawiau manwl ar Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn system gynllunio'r Alban yng **Nghylchlythyr Cynllunio 3/2011: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Yr Alban) 2011**.

## 13.4 Cymru

Caiff y Gyfarwyddeb ei deddfu yng Nghymru drwy ***Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999/293***. Fel yn Lloegr, mae'r Rheoliadau'n rhestru prosiectau Atodlen 1 ac Atodlen 2. Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu disodli yn Lloegr ac erbyn hyn nid ydynt ond yn gymwys (fel y'u diwygiwyd gan ddeddfwriaeth ddiweddarach) i Gymru.

Fel a nodwyd yn Adran 13.1 uchod, cynyddwyd y trothwy ar gyfer rhai prosiectau y mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol ar eu cyfer yn Lloegr ym mis Ebrill 2015, ond nid yw wedi'i gynyddu yng Nghymru hyd yma.

# 14.Apeliadau/yr Arolygiaeth Gynllunio

## 14.1 Lloegr

Mae'r ***Arolygiaeth Gynllunio*** yn un o gyd Asiantaethau Gweithredol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

Pan fo cais wedi ei wrthod gan Awdurdod Cynllunio Lleol, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i gyflwyno apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn ymarferol, y weithdrefn arferol yw i'r apêl gael ei phenderfynu gan arolygydd cynllunio yn enw'r Ysgrifennydd Gwladol, naill ai ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig, cynnal gwrandawiad anffurfiol neu gynnal ymchwiliad llawn. Bydd y weithdrefn a ddewisir yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos, a'r arolygydd cynllunio fydd yn penderfynu.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd bwerau i "adfer" apêl, a gwneud y penderfyniad ei hun.

Nid oes hawl trydydd parti i apelio, nac unrhyw hawl arall i gyflwyno apêl y tu hwnt i benderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol (hyd yn oed os yw'r penderfyniad wedi ei wneud gan arolygydd cynllunio yn ei enw). Mewn achosion penodol, efallai y bydd modd cynnal adolygiad barnwrol o benderfyniad awdurdod lleol neu adolygiad statudol o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r arolygydd cynllunio. Y ***Llys Cynllunio***, a sefydlwyd yn yr Uchel Lys o dan restr ar wahân o dan oruchwyliaeth barnwr arbenigol, sy'n ymdrin â phob adolygiad barnwrol a her statudol sy'n ymwneud â materion cynllunio yn unol â ***Rheol Gweithdrefn Sifil 54.21*** a ***Chyfarwyddyd Ymarfer 54E*** . Ni chaniateir i heriau i'r Llys Cynllunio ymwneud â rhinweddau'r cais cynllunio na phenderfyniad yr apêl ei hun. Rhaid iddynt ymwneud â chyfreithlondeb y ffordd y gwnaed y penderfyniad.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn archwilio Cynlluniau Lleol (gweler Adran 5.1).

## 14.2 Gogledd Iwerddon

Ceir cyflwyno apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan neu ar ran yr ymgeisydd i'r Comisiwn Apeliadau Cynllunio. Nid oes hawl 'trydydd parti' i apelio yn erbyn penderfyniad cynllunio. Fodd bynnag, pan gyflwynir apêl, caiff gwrthwynebwyr neu unrhyw un sydd â budd yn y cynnig gyflwyno ymateb i'r Comisiwn Apeliadau Cynllunio.

Corff apeliadau annibynnol sy'n gweithredu o dan Ddeddf Cynllunio 2011 yw'r ***Comisiwn Apeliadau Cynllunio***. Mae'n gweithredu yn y ddau gategori a ganlyn:

Penderfyniadau ynglŷn ag apeliadau – mae'r Comisiwn yn penderfynu ynglŷn â phob apêl yn erbyn penderfyniadau'r Adran a chynghorau ar amrywiaeth eang o faterion cynllunio ac amgylcheddol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw gais a elwir i mewn gan yr Adran.

Gwrando ar wrandawiadau/ymchwiliadau cyhoeddus a chyflwyno adroddiad – mae'r Comisiwn yn gwneud argymhellion ar amrywiaeth eang o achosion a gyfeirir ato gan yr Adran. Yr Adran berthnasol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y materion hyn.

Caiff penderfyniadau eu trosglwyddo fel nad ydynt yn benderfyniadau gwleidyddol, yn wahanol i fannau eraill yn y DU lle mae'r cyrff apêl yn gwneud penderfyniadau yn enw'r Gweinidogion perthnasol. Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i'r Comisiwn Apeliadau Cynllunio wneud ei benderfyniad ar sail yr adroddiadau a wneir gan y Comisiynwyr. Bydd penderfyniadau'r Comisiwn yn derfynol, ond gellir eu herio drwy wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

## 14.3 Yr Alban

Mae dwy system apelio/adolygu yn gweithredu ym maes cynllunio yn yr Alban, sef:

*Y Corff Adolygu Lleol*: Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio baratoi "cynllun dirprwyo" sy'n nodi rhestr o ddatblygiadau lleol y gall person penodedig, sef swyddog cynllunio fel arfer, benderfynu yn eu cylch yn hytrach na chynghorwyr mewn pwyllgor. Os cafodd penderfyniad cynllunio ei wneud gan swyddog cynllunio o dan gynllun dirprwyo, yna bydd unrhyw apêl yn cael ei gwneud i Gorff Adolygu Lleol y cyngor ac nid i Weinidogion yr Alban. Mae corff adolygu lleol yn cynnwys o leiaf dri aelod etholedig nad oeddent yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.

*Gweinidogion yr Alban*: Os cafodd penderfyniad cynllunio ei wneud gan gynghorwyr, bydd unrhyw apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw'n cael ei gwneud i Weinidogion yr Alban. Caiff apeliadau cynllunio a wneir i Weinidogion yr Alban eu hystyried gan Gofnodwr a benodir gan y **Gyfarwyddiaeth Cynllunio ac Apeliadau Amgylcheddol**. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwneir y penderfyniad ynglŷn â'r apêl gan y Cofnodwr ar ran Gweinidogion yr Alban. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion mae'r Cofnodwr, yn hytrach na chyhoeddi'r penderfyniad, yn cyflwyno adroddiad gydag argymhelliad i Weinidogion yr Alban, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'r rhan fwyaf o apeliadau'n cael eu penderfynu drwy gyflwyniadau ysgrifenedig.

Mae Gweinidogion yr Alban hefyd yn penodi Cofnodwyr y Gyfarwyddiaeth Cynllunio ac Apeliadau Amgylcheddol i gynnal archwiliadau i wrthwynebiadau i gynlluniau datblygu (gweler Adrannau 4.3 a 5.3).

## 14.4 Cymru

Fel yr amlinellir yn Adran 14.1 uchod, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn un o Asiantaethau Gweithredol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. I bob pwrpas, mae'r arolygiaeth fel y mae'n gweithredu yng Nghymru yn un o ganghennau'r Asiantaeth Weithredol yn ei chyfanrwydd. Ceir cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar raglen waith yr arolygiaeth.

Yng Nghymru, mae dyletswyddau'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynnwys prosesu apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio a gorfodi, cynnal archwiliadau cyhoeddus i Gynlluniau Datblygu Lleol a chyflwyno adroddiadau ar geisiadau cynllunio a elwir i mewn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt. Bellach mae hefyd yn ystyried rhai Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru (gweler Adrannau 7.1/7.4 uchod). Bydd yr Arolygiaeth yn y dyfodol yn ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar ran Gweinidogion Cymru (gweler Adran 7 uchod).

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu apêl yng Nghymru yn debyg i'r rhai yn Lloegr (gweler Adran 14.1). Fel yn Lloegr a'r Alban mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau ynglŷn ag apeliadau cynllunio'n cael eu gwneud gan yr Arolygiaeth ar ran Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae ychydig o apeliadau'n cael eu 'hadfer' a'r Gweinidog a fydd yn penderfynu arnynt, gan ystyried argymhelliad yr Arolygiaeth Gynllunio.

# 15. Gorfodi

## 15.1 Lloegr

Yn gyffredinol, nid yw'n drosedd ymgymryd â datblygiad heb ganiatâd cynllunio neu dorri un o amodau caniatâd cynllunio (heblaw mewn perthynas â gwneud newidiadau i adeiladau rhestredig a hysbysebion, sy'n gweithredu o dan drefniadau ar wahân).

Fodd bynnag, mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi. Hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio â chaniatâd cynllunio yw hysbysiad gorfodi. Os yw'r hysbysiad yn cael ei gadarnhau, y gosb am beidio â chydymffurfio yw dirwy o hyd at £20,000 o gael collfarn ddiannod, neu ddirwy ddiderfyn o gael ditiad. Mae mathau eraill o gamau gorfodi yn cynnwys Hysbysiad Torri Amodau, Hysbysiad Atal, Hysbysiad Atal Dros Dro neu Waharddeb i atal achos difrifol o dorri rheolaeth gynllunio. Ceir rhagor o wybodaeth am yr holl bwerau hyn ar dudalennau'r Canllaw Ymarfer Cynllunio sy'n ymwneud â ***sicrhau gorfodaeth effeithiol***.

Cymerir camau gorfodi yn ôl disgresiwn a rhoddir cyfarwyddyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol weithredu'n gymesur wrth ymateb i achosion lle yr amheuir bod rheolau cynllunio wedi'u torri.[7] Bydd rhai awdurdodau yn ystyried faint o niwed a achoswyd ac yn archwilio a yw'n cyfiawnhau cymryd camau. Weithiau, ni chymerir unrhyw gamau os yw'r awdurdod o'r farn y byddai caniatâd cynllunio yn debygol o fod wedi cael ei roi. Os bydd rhywun yn credu y torrwyd rheolaeth gynllunio mewn ffordd sylweddol yn eu hardal, gan wneud niwed difrifol i amwynder cyhoeddus, a'i fod o'r farn nad oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gweithredu fel y dylai, mae'n bosibl y gellir cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ar gael ar **wefan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol**.

Nodir dau derfyn amser ar gyfer camau gorfodi yn *Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*. Pedair blynedd yw'r amser a ganiateir i awdurdod gymryd camau gorfodi lle mae'r achos yn cynnwys datblygiad gweithredol (cyflawni gwaith adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu weithrediadau eraill heb awdurdod) neu newid defnydd adeilad i'w ddefnyddio fel annedd sengl. Deng mlynedd yw'r amser a ganiateir ar gyfer pob achos arall o dorri rheolaeth gynllunio. Yn y ddau achos, gellir cwblhau camau gorfodi ar ôl y dyddiad hwnnw ar yr amod y cânt eu cychwyn cyn hynny.

## 15.2 Gogledd Iwerddon

Un o'r swyddogaethau a drosglwyddir i gynghorau lleol o dan Ddeddf Cynllunio 2011 yw camau gorfodi ym maes cynllunio; fodd bynnag, mae gan yr Adran bwerau i gymryd camau gorfodi pan fo'n credu bod cyngor wedi methu â gweithredu.

Yn debyg i awdurdodaethau eraill y DU, mater i'r cyngor neu'r Adran yw defnyddio'u disgresiwn o ran y pŵer i gymryd camau gorfodi. Nid yw o reidrwydd yn drosedd i ymgymryd â datblygiad heb ganiatâd cynllunio; mewn rhai achosion, os cytunir bod y datblygiad yn gweddu â'r Cynllun Datblygu Lleol ac ystyriaethau perthnasol, efallai mai'r oll fydd ei angen yw caniatâd cynllunio ôl-weithredol.

Fodd bynnag, os ystyrir bod rheolaeth gynllunio wedi'i thorri mewn modd sylweddol, efallai y penderfynir cyflwyno hysbysiad gorfodi er mwyn dod â'r datblygiad anawdurdodedig o dan reolaeth. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi, a gellir rhoi dirwy o hyd at £100,000 o gael collfarn ddiannod, neu ddirwy ddiderfyn o gael ditiad.

---

[7] Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, ***Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol***, Mawrth 2012, t47

O dan Ddeddf 2011, rhaid cymryd camau gorfodi o fewn pum mlynedd i gwblhau'r gwaith yn achos datblygiad gweithredol (adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu weithrediadau eraill mewn, ar, dros neu o dan dir) a phum mlynedd i ddechrau torri'r rheolaeth gynllunio yn achos newid defnydd adeilad i'w ddefnyddio fel tŷ annedd.

Caiff y sawl y cyflwynwyd yr hysbysiad gorfodi iddo gyflwyno apêl yn erbyn yr hysbysiad hwnnw, i'r Comisiwn Apeliadau Cynllunio. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod manylion yr apêl ar gael i'r cyhoedd, fel y gall unrhyw un sydd â gwrthwynebiad neu fudd yn y mater fod yn rhan o'r broses.

I gael rhagor o wybodaeth am yr amrywiaeth o bwerau gorfodi a roddir i gynghorau lleol a'r Adran, gweler Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio 2011.

## 15.3 Yr Alban

Mae'r system orfodaeth ym maes cynllunio yn yr Alban yn eithaf tebyg i'r un yng Nghymru a Lloegr. Cymerir camau gorfodi yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Cynllunio, ac yn gyffredinol ni fydd ond yn gweithredu os bydd hynny er lles y cyhoedd. Mae nifer o opsiynau gorfodi ar gael i awdurdodau cynllunio, a chaiff y rhain eu crynhoi isod:

*Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio:* Gall Awdurdod Cynllunio gyhoeddi Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio (i unrhyw un sydd â buddiant mewn tir) i gael gwybodaeth er mwyn canfod a yw gweithgareddau ar y tir hwnnw yn torri rheolaeth gynllunio.

*Hysbysiad Gorfodi:* Gall Awdurdod Cynllunio gyflwyno Hysbysiad Gorfodi pan fydd yn ystyried bod rheolaeth gynllunio wedi'i thorri. Fel yn Lloegr, gellir rhoi dirwy nad yw'n fwy na £20,000 o gael collfarn am beidio â chydymffurfio, neu ddirwy ddiderfyn o gael ditiad. Ceir hawl i apelio i Weinidogion yr Alban yn erbyn cyflwyno hysbysiad gorfodi.

*Hysbysiad Torri Amod:* Gellir defnyddio hwn yn lle Hysbysiad Gorfodi, ac fe'i defnyddir i orfodi amodau caniatâd cynllunio.

*Hysbysiad Atal:* Pan fo Awdurdod Cynllunio o'r farn bod yn rhaid ymdrin ag achos o dorri rheolaeth gynllunio fel mater o frys, gall gyhoeddi hysbysiad atal.

*Hysbysiad Atal Dros Dro:* Mae hysbysiad atal dros dro yn debyg i hysbysiad atal, ond daw i rym ar unwaith.

*Hysbysiad Cosb Benodedig*: Mae gan Awdurdod Cynllunio y pŵer hefyd i gyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig am beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gorfodi neu Hysbysiad Torri Amod.

*Gwaharddiad:* Er nad yw hwn yn bŵer cynllunio penodol, caiff Awdurdod Cynllunio wneud cais i lys y siryf neu Lys y Sesiwn am waharddiad ('interdict') pan maent yn ystyried bod rheolaeth gynllunio wedi'i thorri, neu ar fin cael ei thorri.

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio baratoi siarter gorfodi, a'i diweddaru bob dwy flynedd, gan nodi sut mae'r system orfodi'n gweithio, beth yw rôl yr Awdurdod Cynllunio yn y broses orfodi, a'i safonau gwasanaeth.

Nodir rhagor o wybodaeth am yr opsiynau gorfodi hyn yng **Nghylchlythyr 10/2009 ar orfodi ym maes cynllunio.**

## 15.4 Cymru

Mae gorfodaeth gynllunio yn gweithredu mewn ffordd debyg yng Nghymru ag y mae yn Lloegr (gweler Adran 15.1 uchod). Nid yw'n drosedd ynddi'i hun i dorri rheolaeth gynllunio ac mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ddisgresiwn i gymryd camau gorfodi neu beidio. Yn ôl **Polisi Cynllunio Cymru**, "y cwestiwn tyngedfennol i'r awdurdod yw a fyddai torri rheolaeth gynllunio yn effeithio mewn modd annerbyniol ar amwynder cyhoeddus neu ar y defnydd a wneir ar hyn o bryd o dir ac adeiladau sydd angen eu diogelu er budd y cyhoedd."

Mae'r opsiynau ar gyfer cymryd camau gorfodi yn cynnwys Hysbysiad Gorfodi; fel yn Lloegr, mae'n drosedd peidio â chydymffurfio a gall arwain at ddirwy o hyd at £20,000; Hysbysiad Torri Amod; Hysbysiad Atal; a Gwaharddeb mewn achosion difrifol. Rhoddir mwy o fanylion am yr opsiynau hyn mewn **Hysbysiad Hwylus ar orfodaeth ym maes cynllunio**. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno Hysbysiadau Atal Dros Dro yng Nghymru yn ddiweddar.

Mewn achosion lle y torrwyd rheolaeth gynllunio a bod rhywun o'r farn nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gweithredu fel y dylai, mae'n bosibl y gellir cyflwyno cwyn i **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.

Mae'r terfynau amser ar gyfer cymryd camau gorfodi yr un fath ag yn Lloegr hefyd.

# 16. Ardoll Seilwaith Cymunedol/Cyfraniadau gan ddatblygwyr

## 16.1 Lloegr

**Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Ardoll y gall awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ddewis ei chodi ar ddatblygiadau newydd yn eu hardal yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Caiff ei chodi ar adeiladau ac estyniadau newydd i helpu i dalu am seilwaith ategol. Mewn ardaloedd lle mae Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn grym, rhaid i dirfeddianwyr a datblygwyr tir dalu'r ardoll i'r awdurdod lleol. Gellir defnyddio'r arian a godir yn sgil yr ardoll i gefnogi datblygiad drwy gyllido cost y seilwaith.

Yr awdurdod lleol sy'n pennu taliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, yn seiliedig ar faint a math y datblygiad newydd. Mae'n daladwy ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau dros 100 metr sgwâr neu lle mae annedd newydd yn cael ei chreu. Caiff yr awdurdod lleol bennu cyfraddau gwahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd daearyddol yn eu hardal ac ar gyfer datblygiadau â gwahanol ddefnyddiau. Mae hwn yn benderfyniad lleol sy'n seiliedig ar hyfywedd economaidd a'r seilwaith sydd ei angen. Nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol godi'r Ardoll Seilwaith Cymunedol os nad yw'n dymuno gwneud hynny. Nid yw strwythurau nad ydynt yn adeiladau, megis peilonau a thyrbinau gwynt, yn gorfod talu'r ardoll. Mae rhyddhad rhag yr ardoll hefyd ar gael i ddatblygiad sy'n ymwneud â thai cymdeithasol a datblygiad gan elusennau at ddibenion elusennol. Mae esemptiad rhag yr ardoll ar gael hefyd i rai estyniadau preswyl penodol a chartrefi y mae'r perchenogion yn eu hadeiladu eu hunain.

**Cytundebau adran 106**

Mae cytundebau adran 106, a elwir weithiau'n "rhwymedigaethau cynllunio" neu "lles cynllunio" yn deillio o gytundebau a wneir o dan adran 106 o ***Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990***, fel y'i diwygiwyd. Cytundebau yw'r rhain a drafodir rhwng y datblygwr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ymateb i bryderon a allai fod gan awdurdod ynghylch talu cost darparu seilwaith newydd. Mae cytundebau adran 106 yn rhwymo mewn cyfraith, a gall y rhwymedigaethau fod naill ai mewn arian parod neu mewn ymrwymiad, i wneud gwaith, darparu tai fforddiadwy neu ddarparu cyllid ychwanegol i wasanaethau.

Rhaid i rwymedigaethau cynllunio i gefnogi datblygiad newydd helpu i gyflawni amcanion y Cynlluniau Lleol a Chynlluniau Datblygu Cymdogaeth ar gyfer ardal benodol. Rhaid bodloni tri phrawf cyfreithiol cyn y gellir defnyddio rhwymedigaeth gynllunio. Nodir y rhain yn rhan 11 o ***Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010***, fel a ganlyn:

> *A planning obligation may only constitute a reason for granting planning permission for the development if the obligation is—*
>
> *(a) necessary to make the development acceptable in planning terms;*
>
> *(b) directly related to the development; and*
>
> *(c) fairly and reasonably related in scale and kind to the development.*

Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cyhoeddi eu Dogfen Gynllunio Atodol eu hunain ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi esboniad manylach o agwedd awdurdod at rwymedigaethau cynllunio a phryd y gellir eu ceisio.

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer Cynllunio'r Llywodraeth ar yr **Ardoll Seilwaith Cymunedol** yn egluro'r berthynas rhwng yr ardoll a'r cytundebau adran 106. Y rhagdybiaeth sylfaenol yw na ddylid codi tâl ddwywaith ar ddatblygwyr o ran yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a chytundebau adran 106 at yr un diben.

O 6 Ebrill 2015, cyfyngwyd ar y defnydd o rwymedigaethau cynllunio 'cyfun' tuag at brosiectau seilwaith. Yn flaenorol, roedd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn arfer gallu cyfuno cyfraniadau rhwymedigaeth gynllunio tuag at un eitem neu gronfa seilwaith 'gyfun'. Fodd bynnag, o dan Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, ni chaiff awdurdodau gyfuno mwy na phum rhwymedigaeth gynllunio gyda'i gilydd mwyach os ymrwymwyd iddynt ers 6 Ebrill 2010, ac os ydynt ar gyfer math o seilwaith y mae modd ei ariannu trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.[8] Mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yw awdurdod wedi sefydlu rhestr taliadau ar gyfer yr ardoll.

## 16.2 Gogledd Iwerddon

Gellir sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr fel amod i'r caniatâd cynllunio neu drwy gytundeb cynllunio o dan adran 76 o Ddeddf Cynllunio 2011. Mae hyn yn galluogi'r Adran neu'r cyngor (pa un bynnag yw'r Awdurdod Cynllunio perthnasol) i ymrwymo i Gytundebau Cynllunio er mwyn hwyluso, rheoleiddio neu gyfyngu ar ddatblygiad neu ddefnydd y tir. Gall hyn gynnwys sefydlu cyfraniadau i'w talu gan y datblygwr i'r awdurdod perthnasol, neu unrhyw un o adrannau Gogledd Iwerddon, i wneud iawn am effaith y datblygiad arfaethedig, wrth roi caniatâd cynllunio.

Yn ôl y **Datganiad Polisi Cynllunio Gofodol** gellir defnyddio cyfraniadau datblygwyr:

- pan fo datblygiad arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol darparu neu wella seilwaith i raddau helaethach na'r hyn sydd yn rhaglen y Cynllun Datblygu Lleol;
- pan fo angen gweithredu cynllun yn y rhaglen yn gynharach na'r hyn a fwriadwyd;
- pan fo datblygiad arfaethedig yn dibynnu ar wneud gwaith y tu allan i'r safle; a
- phan fo angen cynnal ymchwiliad archeolegol neu wneud gwaith lliniaru archeolegol.

Fe allai cytundebau cynllunio o dan y system newydd gynorthwyo i gyflwyno cyfraniadau datblygwyr ar gyfer tai cymdeithasol/fforddiadwy. Cyhoeddwyd **ymgynghoriad ar y cyd** yn 2014 gan yr Adran Datblygiad Cymdeithasol ac Adran yr Amgylchedd ynglŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngogledd Iwerddon. Mewn ymateb i awgrymiadau gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r angen am ragor o ymchwil economaidd ar y mater, mae'r Adran Datblygiad Cymdeithasol wedi'r comisiynu'r gwaith ymchwil hwn ac mae'n dal i aros am y canlyniadau.

Mecanwaith arall o ran gwaith seilwaith yw ***Erthygl 122 o Orchymyn Ffyrdd (Gogledd Iwerddon) 1993***.

Gall datblygwyr benderfynu cynnig budd i'r cymunedau y mae eu datblygiad yn debygol o effeithio arnynt. Gall hyn olygu taliadau i'r gymuned, buddion ar ffurf ar wahân i arian parod, a threfniadau rhannu perchnogaeth. Fodd bynnag, mae buddiannau i'r gymuned yn wirfoddol ac nid ydynt yn destun deddfwriaeth yn yr un modd ag y mae cytundebau cynllunio/cyfraniadau datblygwyr. Am y rheswm hwn, nid yw buddiannau i'r gymuned yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

---

[8] Canllawiau Ymarfer Cynllunio, **Ardoll Seilwaith Cymunedol**, paragraff 099

## 16.3 Yr Alban

Caiff cyfraniadau datblygwyr yn yr Alban eu sicrhau fel arfer o dan ddarpariaethau adran 75 o ***Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997,*** a elwir fel arfer yn "gytundebau Adran 75". Yn ei hanfod, contract yw cytundeb adran 75 rhwng yr Awdurdod Cynllunio a'r tirfeddiannwr (a thirfeddianwyr yn y dyfodol o bosibl, yn dibynnu ar delerau'r cytundeb) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r tirfeddiannwr gyfyngu ar y defnydd o'i ddatblygiad arfaethedig neu ei reoleiddio neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl yn sgil y datblygiad hwnnw drwy ffyrdd a nodir yn y cytundeb. Gall hyn gynnwys gwneud taliad i'r Awdurdod Cynllunio tuag at ddatblygu seilwaith cysylltiedig, e.e. ehangu ysgol neu wella ffordd. Mae'r materion a gwmpesir gan gytundeb adran 75 fel arfer yn faterion na ellir eu gorfodi drwy amod sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio.

Nid oes dim yn yr Alban sy'n cyfateb i Ardoll Seilwaith Cymunedol Cymru a Lloegr.

## 16.4 Cymru

Mae adran 16.1 yn esbonio bod yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Er bod y rhan fwyaf o agweddau ar y system gynllunio wedi'u datganoli, mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei gweld fel treth ac mae'n fater a gadwyd yn ôl ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi **galw am ddatganoli'r ardoll** gan fod cysylltiad agos rhyngddi a'r system gynllunio. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei ***chanllawiau ei hun i baratoi rhestr codi tâl ar gyfer yr Ardoll Seilwaith Cymunedol*** gan ddweud ei bod yn disgwyl y bydd y dystiolaeth sy'n ategu rhestr daliadau yn cynnwys cynllun datblygu cyfoes. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddefnyddio tystiolaeth briodol sydd ar gael i lywio eu rhestr daliadau.

Caiff Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd gytuno ar gytundebau adran 106 gyda datblygwyr fel yn Lloegr.

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru wedi bod yn arafach na rhai yn Lloegr o ran mabwysiadu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol – fodd bynnag mae nifer fach o awdurdodau yng Nghymru bellach wedi paratoi rhestrau taliadau ac mae eraill yn gweithio ar eu pen eu hunain neu ar y cyd i lunio rhai. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cyfyngiad ychwanegol ar y defnydd o gytundebau adran 106 nawr bod y cyfnod pontio wedi dod i ben (gweler Adran 16.1).

# 17.Gwasanaethau cynghori ar gynllunio

## 17.1 Lloegr

Caiff y **Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio** ei ariannu'n uniongyrchol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'n darparu amrywiaeth o gymorth ac adnoddau ar-lein i awdurdodau lleol i'w helpu i ddarparu gwasanaeth cynllunio effeithiol.

Mae **Porth Cynllunio'r** Llywodraeth yn darparu gwybodaeth, canllawiau rhyngweithiol ac adnoddau eraill i esbonio sut i ddefnyddio'r system gynllunio'n ymarferol.

Mae **Planning Aid England**, a gynhelir gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, yn cynorthwyo cymunedau ac unigolion gyda materion cynllunio yn Lloegr.

## 17.2 Gogledd Iwerddon

Nid oes gan Ogledd Iwerddon wasanaeth cynghori tebyg i Loegr. Mae'r Adran yn cynghori y dylid cyfeirio'r rhan fwyaf o ymholiadau sy'n ymwneud â'r broses gynllunio, ceisiadau cynllunio a ffioedd at y **swyddfeydd cynllunio ardal lleol**. Bydd gan ardal pob cyngor newydd ei swyddfa cynllunio lleol ei hun.

Mae'r Adran, trwy ei ***Phorth Cynllunio*** yn darparu gwybodaeth a chyngor ar-lein ar ddeddfwriaeth, polisi rhanbarthol, ceisiadau cynllunio a'r system gynllunio.

Elusen annibynnol â staff amser llawn yw ***Community Places***, ac mae'n cynnig cyngor ar faterion cynllunio, hyfforddiant a chymorth prosiect i grwpiau sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd Community Places. Mae hefyd yn gweithio'n annibynnol i hwyluso gwaith ymgynghori â'r cyhoedd a chymunedau ar faterion cynllunio a gwasanaethau cyhoeddus.

## 17.3 Yr Alban

Mae ***Planning Aid for Scotland***, elusen annibynnol, yn rhoi cyngor, cymorth a hyfforddiant ym maes cynllunio proffesiynol i unigolion a grwpiau cymunedol ledled yr Alban.

## 17.4 Cymru

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y ***Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio*** (PAIS) cenedlaethol ym mis Mai 2015, a hi fydd yn cynnal y gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth yn gweithredu ar sail interim yn ystod y flwyddyn gyntaf. Bydd y grŵp a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cyngor ar sut y dylai weithredu'n effeithiol yn y tymor hwy.

Elusen annibynnol yw ***Cymorth Cynllunio Cymru*** ac mae'n rhoi cyngor ar bob agwedd ar gynllunio defnydd tir yng Nghymru.

# 18.Newidiadau yn y dyfodol

## 18.1 Lloegr

- Cyflwynwyd ***Bil Tai a Chynllunio 2015-16*** i Senedd y DU ar 13 Hydref, 2015. Mae llawer o'i ddarpariaethau yn canolbwyntio ar gyflymu'r system gynllunio gyda'r nod o ddarparu mwy o dai. Dyma rai o'r prif ddarpariaethau cynllunio:
- rhoi dyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod cynllunio i hybu'r cyflenwad o dai ar gyfer pobl sy'n prynu am y tro cyntaf, a darparu dyletswydd benodol, a nodir mewn rheoliadau yn ddiweddarach, i'w gwneud yn ofynnol i gynnwys nifer neu gyfran benodol o gartrefi o'r fath ar y safle;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi digon o ganiatâd datblygu addas ar gyfer lleiniau o dir â gwasanaeth, i ateb y galw yn seiliedig ar y gofrestr o bobl sy'n dymuno adeiladu eu cartref eu hunain.
- ymyrraeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â pharatoi cynlluniau lleol lle y barnwyd bod awdurdodau lleol yn rhy araf;
- creu system o barthau ar gyfer tir llwyd gan greu caniatâd cynllunio awtomatig mewn egwyddor ar gyfer tai;
- caniatáu i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ag "elfen" o dai gael eu hystyried fel rhan o gyfundrefn caniatâd datblygu *Deddf Cynllunio 2008*;
- gwneud newidiadau i'r broses prynu gorfodol yng Nghymru a Lloegr.

I gael gwybodaeth fanylach ac ymateb i'r newidiadau hyn, gweler papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar y ***Bil Tai a Chynllunio***.

Yn ogystal â rhai mesurau sydd bellach wedi'u cynnwys yn y Bil, cyhoeddwyd rhai newidiadau ychwanegol hefyd yng Nghynllun Cynhyrchiant y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2015, **Fixing the Foundations: Creating a more prosperous nation**, ac yn **Natganiad yr Hydref** ym mis Tachwedd 2015, gan gynnwys:

- tynhau'n sylweddol ar y warant gynllunio (cyfanswm yr amser y mae ceisiadau cynllunio'n ei dreulio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau), ar gyfer ceisiadau cynllunio bach;
- cryfhau'r canllawiau i wella'r defnydd o'r ddyletswydd i awdurdodau lleol gydweithredu ar faterion strategol; a
- chyflwyno prawf cyflawni ar gyfer awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau y darperir y cartrefi a nodir mewn cynlluniau lleol o fewn amserlen resymol.

Cyhoeddwyd rhai newidiadau hefyd yng nghynllun cynhyrchiant gwledig Llywodraeth y DU ym mis Awst 2015, ***Towards a one nation economy: A 10-point plan for boosting productivity in rural areas***. Diben y newidiadau hyn oedd gwneud y broses gynllunio'n haws mewn ardaloedd gwledig gan gynnwys cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir newydd a diwygiedig.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cadarnhau y bydd yr hawl datblygiad a ganiateir, sy'n caniatáu newid o swyddfeydd i ddefnydd preswyl heb fod angen caniatâd cynllunio mewn rhai amgylchiadau, yn cael ei newid o fod yn hawl dros dro i fod yn hawl barhaol. Ceir cynigion hefyd i gynyddu hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas ag archwilio am nwy siâl.

## 18.2 Gogledd Iwerddon

Diwygiwyd y system gynllunio yng Ngogledd Iwerddon yn llwyr yn sgil Deddf Cynllunio 2011, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015, trwy ddychwelyd swyddogaethau cynllunio penodol i gynghorau lleol. Er bod Adran yr Amgylchedd yn parhau i fod yn gyfrifol am gynllunio rhanbarthol (a swyddogaethau eraill a nodir yn Adran 2.2), fe allai cynigion i ailstrwythuro adrannau eraill yn 2016 arwain at gyfuno'r swyddogaethau hyn a'r rhai a gyflawnir ar hyn o bryd gan yr Adran Datblygu Rhanbarthol (fel a nodir yn Adran 3.2) o dan Adran Seilwaith newydd. I bob pwrpas mae'r Ddeddf yn newid y system gynllunio o fod yn un sy'n seiliedig ar ddefnydd tir i un sy'n gweithredu ar sail y cysyniad o gynllunio gofodol.

Ar hyn o bryd, mae'r cynghorau sydd newydd eu ffurfio yn defnyddio'r cynlluniau datblygu a baratowyd gan yr Adran o dan yr hen system gynllunio. Cam dros dro yw hwn nes i'r cynghorau newydd ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol eu hunain.

Mae Gweinidog presennol yr Amgylchedd wedi cyhoeddi bod angen creu asiantaeth diogelu'r amgylchedd annibynnol, yn unol â'r broses o ailstrwythuro adrannau ym mis Mai 2016. Byddai'r drefn yng Ngogledd Iwerddon yn cyd-fynd â'r drefn yng ngweddill y DU yn sgil newid o'r fath. Ar hyn o bryd mae Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon yn asiantaeth y llywodraeth sy'n rhan o Adran yr Amgylchedd; mae'n ymgynghorai statudol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, yn rhoi cyngor ar geisiadau pan fo Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol, ac yn cyhoeddi'r trwyddedau amgylcheddol angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer prosiect.

## 18.3 Yr Alban

Diwygiwyd system gynllunio'r Alban yn sylweddol gan *Ddeddf Cynllunio etc. (yr Alban) 2006*, a deddfwyd prif ddarpariaethau'r Ddeddf honno hyd at 2010. Mae dogfen Llywodraeth yr Alban **Programme for Scotland 2015-16** yn datgan y bydd Llywodraeth yr Alban yn adolygu'r system gynllunio gyda'r nod o gyflwyno proses gynllunio gyflymach, mwy hygyrch a mwy effeithlon, gan sicrhau yn enwedig y darperir mwy o ddatblygiadau tai o ansawdd uchel.

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd Alex Neil ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Cymunedau a Hawliau Pensiynwyr fod panel annibynnol wedi'i benodi i gynnal adolygiad o'r system gynllunio yn yr Alban.

Cyhoeddodd y panel annibynnol alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar 19 Hydref 2015, gan gyflwyno cyfres o gwestiynau am gynllunio datblygiadau, darparu tai, cynllunio ar gyfer seilwaith, rheoli datblygiadau, arweinyddiaeth/adnoddau/sgiliau ac ymgysylltu â'r gymuned. Daeth yr alwad am dystiolaeth i ben ar 1 Rhagfyr 2015.

Y bwriad yw i'r panel annibynnol gyflwyno ei adroddiad ym mis Mai 2016. Bydd Gweinidogion yr Alban wedyn yn ymateb i'w argymhellion â rhaglen waith er mwyn bwrw ymlaen â newidiadau i'r system gynllunio.

Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ar gael ar y **wefan Llywodraeth yr Alban**.

## 18.4 Cymru

Ar ôl i **Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015** gael Cydsyniad Brenhinol, mae gan Lywodraeth Cymru raglen o is-ddeddfwriaeth i'w chyflwyno i weithredu'r newidiadau i'r system gynllunio a gyflwynwyd gan y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ystyried yr angen am **Ddeddf Cydgrynhoi Cynllunio ar gyfer Cymru**, i greu deddfwriaeth sylfaenol symlach ym maes cynllunio ar gyfer rheoli datblygiadau yng Nghymru.  Y bwriad yw i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ynghyd â Bil drafft yn ystod haf 2017.

Disgwylir i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, a fydd yn cael ei ddatblygu o dan Ddeddf 2015, gael ei fabwysiadu yn 2019.

# 19.Rhagor o wybodaeth

## 19.1 Lloegr

Mae Papurau Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar gael ar-lein **yma**.

Mae'r ***Porth Cynllunio*** hefyd yn rhoi gwybodaeth am y system gynllunio yn Lloegr (dewiswch **Lloegr** ar gornel dde uchaf yr hafan).

Llywodraeth EM, **Plain English guide to the planning system**, 5 Ionawr 2015

## 19.2 Gogledd Iwerddon

Dogfennau a lincs defnyddiol:

***Deddf Cynllunio 2011***

***Is-ddeddfwriaeth i Ddeddf Cynllunio 2011.***

Adran Datblygu Rhanbarthol Gogledd Iwerddon (2012) ***Strategaeth Datblygu Rhanbarthol 2035***.

Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (2015) ***Datganiad Polisi Cynllunio Strategol***.

**Hen Ddatganiadau Polisi Cynllunio**.

Mae rhagor o gyngor ar y system gynllunio yng Ngogledd Iwerddon ar gael trwy **Borth Cynllunio** Gogledd Iwerddon. Mae'r **Nodiadau Ymarfer** yn arbennig o ddefnyddiol. Mae'r rhain yn rhoi cyngor i berchnogion tai, busnesau, datblygwyr ac ymarferwyr o safbwynt:

**Nodiadau Ymarfer ar Gynlluniau Datblygu**

**Nodiadau Ymarfer ar Reoli Datblygiadau**

Mae papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon ar gael **yma**.

## 19.3 Yr Alban

Mae papurau briffio Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban ar gael **yma**.

## 19.4 Cymru

Mae papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael **yma**.

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o **Hysbysiadau Hwylus** ar wahanol agweddau ar y system gynllunio yng Nghymru.

Mae'r **Blog-bost hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil** yn cynnwys lincs i gyhoeddiadau allweddol sy'n ymwneud â chynllunio ac adnoddau eraill.

Mae'r **Porth Cynllunio** hefyd yn cynnig gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru (dewiswch **safle Cymru** ar frig ochr dde'r hafan).